

Rhif ymchwil gymdeithasol: 38/2026

Dyddiad cyhoeddi: 19/02/2026

Adroddiad Technegol Arolwg Cenedlaethol Cymru 2024 i 2025

Fersiwn 1



Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.

This document is also available in English.

Arolwg Cenedlaethol Cymru 2024 i 2025

Adroddiad Technegol

Awduron:

Tîm Verian: Stuart Grant, Joel Williams, Richard Crawshaw, David Xu, Miche George, Thomas Holley

Adroddiad Ymchwil Llawn: Grant, S., Williams, J., Crawshaw, R., Xu, D., George, M., Holley, T (Chwefror 2026). Adroddiad Technegol Arolwg Cenedlaethol Cymru 2024 i 2025. Caerdydd: Llywodraeth Cymru, Rhif adroddiad Ymchwil Gymdeithasol y Llywodraeth 38/2026.

Ar gael yn: <https://www.llyw.cymru/arolwg-cenedlaethol-cymru-gwybodaeth-dechnegol>

Safbwyntiau'r awduron yw'r rhai a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid rhai Llywodraeth Cymru o anghenraid

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch â:

Tîm Arolwg Cenedlaethol Cymru

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

03000 251 067

arolygon@llyw.cymru

Cynnwys

Rhestr o'r tablau	6
Rhestr termau	8
1. Cyflwyniad a throsolwg o'r arolwg	9
1.1. Trosolwg o arolwg 2024-25.....	9
1.2. Gwaith maes prif gam 2024-25	9
1.3. Prawf Maes 2023	12
1.4. Peilota 2024-25.....	12
1.5. Strwythur yr adroddiad	13
2. Dyluniad a gweithredu'r sampl.....	14
2.1. Poblogaeth darged.....	14
2.2. Ffrâm y sampl	14
2.3. Strwythur y sampl	14
2.4. Ardaloedd aseiniad	14
2.5. Targedau ymateb a diwygiadau	15
2.6. Yr uwch sampl	17
2.7. Samplu ar gyfer dyroddi o'r uwch sampl	17
2.8. Addasiadau i'r sampl a ddyroddwyd yn ystod gwaith maes	18
2.9. Samplu o fewn cyfeiriadau	20
3. Cynnwys a datblygu'r holiadur	22
3.1. Trosolwg o'r holiadur.....	22
3.2. Cynnwys yr holiadur.....	22
3.3. Rhaglennu a phrofi'r holiadur	24
3.4. Newidiadau i'r holiadur.....	25
3.5. Cyfieithiad Cymraeg.....	26
3.6. Amseriadau'r cyfweliadau	27
3.7. Amrywiad rhwng amseriadau'r cyfweliadau dros y ffôn a'r cyfweliadau yn y cartref ³²	
3.8. Ffracsiynau is-samplu	33
4. Gwaith maes.....	35
4.1. Recriwtio cyfwelwyr.....	35

4.2.	Trosolwg o'r sesiynau briffio cyfwelwyr	36
4.3.	Trosolwg ar oruchwyliaeth a rheolaeth ansawdd	37
4.4.	Dyddiadau, rheoli a gweithdrefnau'r gwaith maes.....	38
4.5.	Dogfennau'r gwaith maes	40
4.6.	Tudalennau gwe am yr arolwg	43
4.7.	Cyfweliadau yn Gymraeg ac mewn ieithoedd eraill.....	43
4.8.	Cyfweliadau dros y ffôn ac wyneb-yn-wyneb gyda chymorth.....	45
4.9.	Y broses o gysylltu mewn cyfeiriad yn y sampl	45
4.10.	Arolwg hunan-gwblhau (CAWI/CASI).....	46
4.11.	Crynodeb o ddeilliannau'r sampl	46
4.12.	Dadansoddiad o'r deilliannau fesul dull	48
4.13.	Deilliannau ar gyfer y sampl 'pob dull' yn unig.....	53
4.14.	Arolygon (CAWI / arolygon CATI wedi'u gweinyddu gan y cyfwelydd) ar-lein a gyflawnwyd.....	56
4.15.	Arolygon CASI / arolygon CAPI wedi'u gweinyddu gan y cyfwelydd a gyflawnwyd	57
4.16.	Materion a wynebwyd yn ystod y gwaith maes.....	58
4.16.1.	Cyfraddau optio-i-mewn is na'r disgwyl	58
4.16.2.	Adnoddau cyfweld yn gwrthdaro rhwng gwaith maes dros y ffôn ac yn y cartref ⁵⁹	
4.16.3.	Oedi rhwng optio i mewn a galwad gychwynnol yn ôl	60
4.16.4.	'Dethol y sawl a wnaeth optio i mewn' o'i gymharu â dethol ar hap	60
4.16.5.	Effaith sgrinio galwadau	60
5.	Prosesu ac allbwn data	62
5.1.	Codio a golygu data	62
5.2.	Trosi achosion o gyfweliadau'n set ddata	62
5.3.	Confensiynau enwi.....	63
5.4.	Codau arbennig	63
5.5.	Newidynnau deilliedig	64
5.6.	Allbynnau data	64
5.7.	Cynnwys y ffeil ddata SPSS.....	64
5.8.	Argaeledd data.....	65
6.	Pwysoli, diffyg ymateb a dadansoddi.....	66

6.1.	Pwysoli unigol	66
6.1.1.	Pwysiadau dyluniad	66
6.1.2.	Pwysiadau diffyg ymateb yn seiliedig ar y ffrâm sampl	66
6.1.3.	Calibro i gyfansymiau poblogaeth allanol.....	67
6.1.4.	Ailgodio newidynnau	72
6.1.5.	Pwysiad ymatebwyr unigol.....	76
6.2.	Pwysiad poblogaeth.....	80
6.3.	Pwysiad aelwydydd.....	85
6.4.	Pwysiad y modiwl hunan-gwblhau	87
7.	Arbrawf llythyr chwarter 2	94
7.1.	Cefndir yr arbrawf	94
7.2.	Canlyniadau'r arbrawf	95
	Atodiadau	96
A.	Crynodeb is-samplu.....	97
B.	Crynodeb o amseriadau'r arolwg.....	99
C.	Deunyddiau'r arolwg	103
D.	Newidynnau deilliedig ar gyfer set ddata derfynol 2024-25	128
E.	Pwysiadau a gynhyrchwyd ar gyfer set ddata derfynol 2024-25.....	139
F.	Newidynnau gweinyddol ar gyfer set ddata derfynol 2024-25	140
G.	Codau deilliant.....	144
H.	Crynodeb o Waith Maes 2023	146

Rhestr o'r tablau

Tabl 2.1 Maint y sampl darged ar gyfer pob awdurdod lleol, yn ogystal â nifer yr ardaloedd aseiniad.	16
Tabl 2.2 Nifer y cyfeiriadau a ddyroddwyd ym mhob awdurdod lleol ym mhob mis o fewn y sampl.....	19
Tabl 2.3 Cyfran y cyfeiriadau wedi'u dyroddi a ddyrannwyd i gyfweliadau wyneb-yn-wyneb dilynol ym mhob awdurdod lleol	20
Tabl 3.1 Hyd cyfweliadau yn ôl dull cwblhau	27
Tabl 4.1 Maint y paneli fesul mis	36
Tabl 4.2 Disgrifiad o ddeunyddiau'r arolwg	42
Tabl 4.3 Iaith cyfweliadau ar gyfer y dull dros y ffôn.....	44
Tabl 4.4 Iaith cyfweliadau ar gyfer y dull wyneb-yn-wyneb.....	44
Tabl 4.5 Crynodeb o'r deilliannau terfynol fesul dull.....	48
Tabl 4.6 Cam dros y ffôn fesul ALI.....	50
Tabl 4.7 Cam wyneb-yn-wyneb fesul ALI.....	51
Tabl 4.8 Deilliannau ar gyfer y sampl 'pob dull' yn unig.....	53
Tabl 4.9 Sampl 'Pob dull' fesul ALI.....	55
Tabl 4.10 Crynodeb o'r sampl hunan-gwblhau (arolwg CAWI / arolwg CATI a weinyddwyd gan y cyfwelydd)	56
Tabl 4.11 Crynodeb o'r sampl hunan-gwblhau (arolwg CASI / arolwg CAPI a weinyddwyd gan gyfwelydd)	57
Tabl 6.1 Amcangyfrifon Poblogaeth canol-2023 y Swyddfa Ystadegau Gwladol - poblogaeth Cymru yn ôl oedran a rhyw.....	68
Tabl 6.2 Amcangyfrifon Poblogaeth canol-2023 y Swyddfa Ystadegau Gwladol 2023 - poblogaeth Cymru yn ôl awdurdod lleol, oedran a rhyw.....	69
Tabl 6.3: Cyfrifiad 2021 – Poblogaeth ar lefel aelwydydd yng Nghymru yn ôl awdurdod lleol, cyfansoddiad a deiliadaeth.....	70
Tabl 6.4 Cyfrifon poblogaeth a ddefnyddiwyd yn y pwysiad calibro unigolion.....	72
Tabl 6.5 Proffil pwysedig ar lefel unigolion.....	76

Tabl 6.6: Proffil pwysedig unigolion o fewn aelwydydd a ymatebodd	80
Tabl 6.7: Proffil aelwydydd a ymatebodd gan ddefnyddio WalesHhWeight	85
Tabl 6.8 Effeithiau dyluniad a ffactorau dyluniad ar gyfer cwestiynau penodol yn 2024-25	88
Tabl 6.9: Effeithiau dyluniad cyfartalog ar lefel ALI.....	93
Atodiadau	
Tabl B.1: Amseroedd canolrifol a chymedrig Arolwg Cenedlaethol 2024-25 (prif holiadur) ...	99
Tabl B.2: 2024-25 Amseroedd canolrifol a chymedrig Arolwg Cenedlaethol 2024-25 (adran hunan-gwblhau)	102
Tabl G1: Crynodeb o godau deilliannau gwahanol ar gyfer ‘anghymwys’ a ‘diffyg cyswllt’ yn ôl dull.....	144
Tabl H1: Amseriadau’r cyfweiliadau.....	147
Tabl H2: Crynodeb o’r deilliannau terfynol	150
Tabl H3: Crynodeb o’r sampl optio-i-mewn.....	151
Tabl H4: Sampl tele-baru	153
Tabl H5: Crynodeb o’r sampl wyneb-yn-wyneb (yr holl aelwydydd).....	154
Tabl H6: Crynodeb o’r sampl wyneb-yn-wyneb (pawb y cysylltwyd â hwy).....	155
Tabl H7: Crynodeb o’r sampl ar-lein	156
Tabl H8: Crynodeb o’r sampl CASI	157

Rhestr termau

CATI

Cyfweld dros y ffôn gyda chymorth cyfrifiadur

CAWI

Cyfweld dros y we gyda chymorth cyfrifiadur

CAPI

Cyfweld personol gyda chymorth cyfrifiadur

CASI

Hunan-gyfweld gyda chymorth cyfrifiadur

ALI

Awdurdod lleol

PAF

Ffeil Cyfeiriad Cod Post y Post Brenhinol

LIC

Llywodraeth Cymru

2024-25

Ebrill 2024 i Mawrth 2025

1. Cyflwyniad a throsolwg o'r arolwg

Arolwg a gomisiynir gan Lywodraeth Cymru (LIC), Chwaraeon Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru a Chyngor Celfyddydau Cymru yw Arolwg Cenedlaethol Cymru. Cynhaliwyd arolwg 2024-25 gan Verian a Beaufort Research.

Mae'r arolwg yn nodweddiadol wedi bod yn cael 12,000 o ymatebion y flwyddyn. Fodd bynnag, oherwydd gostyngiad yn y gyllideb ar y cyfan a pherfformiad gwannach na'r disgwyl yn ystod y prawf maes wedi'i gwtogi, cafodd y targed o ran maint y sampl yn 2024-25 ei ddiwygio i lawr i 8,000 yn fuan cyn dechrau'r gwaith maes prif gam; ac yna ei ddiwygio i lawr ymhellach hanner ffordd drwy'r flwyddyn i 6,500. Y maint terfynol a gyflawnwyd ar gyfer y sampl oedd 5,926.

1.1. Trosolwg o arolwg 2024-25

Mae'r Arolwg Cenedlaethol yn ymgorffori cwestiynau arolwg i gasglu tystiolaeth ar draws ystod amrywiol o feysydd polisi, megis iechyd a llesiant, chwaraeon, y celfyddydau, diwylliant, ymddygiad teithio, agweddau at newid hinsawdd ac ymddygiadau gwyrdd (gan gynnwys ailgylchu), amddifadedd materol a defnyddio banciau bwyd, a defnyddio gwasanaethau gofal cymdeithasol a boddhad gyda hwy.

O ganlyniad i bandemig Covid, fe wnaed newidiadau sylweddol i'r Arolwg Cenedlaethol ers 2020, gan newid o gyfweiliadau wyneb-yn-wyneb i gyfweiliadau dros y ffôn yn ystod y pandemig ei hun. Yn 2024-25, cynhaliwyd yr arolwg dros y ffôn (CATI) ac wyneb yn wyneb (CAPI). Ar ôl yr arolwg dros y ffôn roedd adran hunan-gwblhau ar-lein (CAWI), ac ar ôl yr arolwg wyneb-yn-wyneb roedd adran hunan-gwblhau ar lechen y cyfwelydd (CASI).

1.2. Gwaith maes prif gam 2024–25

Cynhaliwyd y gwaith maes prif gam rhwng yn hwyr ym mis Mawrth 2024 a diwedd mis Mawrth 2025. Roedd yn cynnwys cyfweiliadau gyda phobl 16 oed a throsodd yn seiliedig ar sampl a ddetholwyd ar hap o gyfeiriadau preswyl ledled Cymru.

Roedd prif gorff yr arolwg yn gyson ar draws dulliau dros y ffôn ac wyneb-yn-wyneb ac yn cynnwys 70 o fodiwlau. Gofynnwyd cwestiynau am rai testunau i'r holl ymatebwyr tra bo eraill wedi cael eu gofyn i is-samplau er mwyn defnyddio'r amser a oedd ar gael i gynnal yr arolwg yn y ffordd fwyaf effeithlon. Roedd y testunau ym mhrif adran yr holiadur yn cynnwys:

- cyflogaeth ac addysg, er enghraifft gwaith teg ac oedraniaeth
- ardal leol a chymuned, er enghraifft awdurdodau lleol a diogelwch cymunedol
- cyllid, er enghraifft amddifadedd materol aelwydydd a thlodi bwyd

- rhieni a phlant, er enghraifft ysgolion a gofal plant
- llesiant, iechyd a gweithgarwch corfforol, er enghraifft gofalwyr di-dâl ac afiechyd hirdymor
- Chwaraeon Cymru, er enghraifft cyfranogiad a galw nas bodlonir
- gwasanaethau iechyd, er enghraifft gofal clyw a llygaid
- modiwlau boddhad, er enghraifft boddhad gyda gwasanaethau iechyd a Llywodraeth Cymru
- y celfyddydau a diwylliant, er enghraifft presenoldeb mewn digwyddiadau celfyddydol a chyfranogiad yn y celfyddydau

Roedd yr adran hunan-gwblhau'n fyrrach (16 o fodiwlau), er mai dim ond is-set i'r modiwlau hyn yr oedd pob ymatebydd yn ei chwblhau. Roedd yr adran hon fel arfer yn cael ei chwblhau gan yr ymatebydd ei hun, naill ai ar-lein neu (mewn cyfweiliadau wyneb-yn-wyneb) gan ddefnyddio llechen y cyfwelydd. Gallai gael ei gweinyddu gan y cyfwelydd hefyd (dros y ffôn neu wyneb yn wyneb). Nid oedd modiwlau a oedd yn cynnwys unrhyw gwestiynau sensitif yn cael eu gofyn os oedd yr adran yn cael ei chwblhau gyda chymorth cyfwelydd neu aelod arall o'r aelwyd. Caiff y testunau yn yr adran hunan-gwblhau eu dangos isod gyda'r modiwlau a oedd yn cynnwys unrhyw gwestiynau sensitif wedi'u marcio â '(*)':

- gwasanaethau gofal iechyd heblaw meddyg teulu
- iechyd EQ-5D-5L (*)
- Cyfoeth Naturiol Cymru (perygl llifogydd, bioamrywiaeth, pryderon amgylcheddol, gweithredu amgylcheddol, ymddygiadau amgylcheddol, mannau gwyrdd a naturiol)
- Sŵn 2024-25
- dinasyddiaeth fyd-eang
- cosbi plant yn gorfforol (*)
- Graddfa Llesiant Meddyliol Warwick-Caeredin (WEMWBS) neu Raddfa Fer Llesiant Meddyliol Warwick-Caeredin (SWEMWBS) (*)
- gwahaniaethu a bwlio (*)
- gwirfoddoli

Archwilir yr holiadur llawn mewn mwy o fanylder ym [Mhennod 3](#), tra gellir gweld y cwestiynau yn holiadur 2024-25 yn [Arolwg Cenedlaethol Cymru: holiaduron | LLYW.CYMRU | Ebrill 2024 – Mawrth 2025](#).

Roedd rhaid i ymatebwyr gwblhau'r prif arolwg a'r adran hunan-gwblhau er mwyn cael taleb rhodd a oedd yn werth £15 fel 'arwydd o ddiolch' am gymryd rhan yn yr arolwg.

Roedd yr holiadur a'r holl ddeunyddiau ategol (gweler [Pennod 4](#) ac [Atodiad C](#)) ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg ym mhob cam (y prif gam a'r peilot, gweler [adran 1.4](#)). Fe gynhaliwyd cyfweiliadau Cymraeg gan Asiantaeth Beaufort Research yn bennaf. Roedd ieithoedd eraill ar gael hefyd gyda chymorth cyfieithydd yn yr aelwyd neu gyfieithydd allanol os oedd angen.

Fe haenwyd y sampl yn ôl y 22 o awdurdodau lleol (ALLau) yng Nghymru, ac fe ddetholwyd sampl wrth gefn yn yr un ffordd.

Rhwng yn hwyr ym mis Mawrth 2024 a diwedd mis Mawrth 2025, fe gwblhawyd cyfanswm o 5,926 o gyfweiliadau dros y ffôn ac wyneb-yn-wyneb. Roedd y gyfradd ymateb ar y cyfan yn 12.5% (cam dros y ffôn) + 6.2% (cam wyneb-yn-wyneb) = **18.7%**.

Roedd y gyfradd ymateb yn sylweddol is na'r 41% a ragwelwyd ar adeg dechrau'r contract ac yn is na'r 38.4% a gyflawnwyd ym mlwyddyn flaenorol yr arolwg, sef 2022-23. Caiff rhesymau posibl dros y gyfradd ymateb isel eu nodi yn adrannau [3.7](#) a [4.15](#).

Aeth cyfanswm o 5,851 ymlaen i wneud yr adran hunan-gwblhau. O'r rhai a gymerodd ran dros y ffôn (3,949) fe wnaeth 3,342 yr adran hunan-gwblhau ar-lein, gyda 386 arall yn ei chwblhau gyda chyfwelydd dros y ffôn. O'r rhai a gymerodd ran wyneb yn wyneb (1,977), fe wnaeth 1,530 yr adran hunan-gwblhau ar lechen, gyda 411 arall yn ei chwblhau gyda'r cyfwelydd¹. Roedd y gyfradd ymateb ar y cyfan ar gyfer yr adran hunan-gwblhau yn 98.7% (gan gynnwys y rhai a'i cwblhaodd gyda chyfwelydd). Roedd y gyfradd gadael-cyn-gorffen ar y cyfan rhwng yr adran dan arweiniad cyfwelydd a'r adran hunan-gwblhau yn 1.3%.

Roedd nifer y cyfweiliadau a gyflawnwyd ym mhob ALI yn amrywio o 183 ym Mlaenau Gwent i 583 ym Mhowys.

Roedd nifer y cyfweiliadau a gwblhawyd ar y cyfan yn is na'r targed gwreiddiol o 12,000 a oedd wedi'i gynnwys yn y fanyleb ar gyfer yr arolwg pan oedd y gwaith maes wedi'i amserlennu i ddechrau ym mis Mawrth 2023. Lleihawyd y targed hwn i 8,000 ym mis Chwefror 2024 oherwydd perfformiad gwannach na'r disgwyl yn ystod y Prawf Maes wedi'i gwtogi ([gweler adran 1.3](#)) yn ogystal â chodiadau yn y gost a chyfyngiadau cyllidebol cyn dechrau'r gwaith maes. Wedyn fe gynyddwyd y targed i 9,400 ym mis Mai 2024 yn dilyn trefnu i gyllideb ychwanegol fod ar gael, cyn iddo gael ei leihau eto i 6,500 ym mis Hydref 2024. Roedd nifer y cyfweiliadau a gyflawnwyd yn sylweddol is na'r targed gwreiddiol: ni chafodd tybiaethau a oedd yn tanategu dyluniad arolwg 2024-25 (yn enwedig y cyfraddau optio-i-mewn), yn seiliedig ar berfformiad maes rhwng mis Ionawr 2021 a mis Mawrth 2023, eu cyflawni'n ymarferol, tra bo rhai heriau

¹ DS: nid yw'r niferoedd a ddangosir yn cyfateb i'r cyfansymiau ar y cyfan gan bod rhai ymatebwyr wedi gwrthod yr adran hunan-gwblhau neu heb fwrw ymlaen â hi ar ôl ei derbyn i ddechrau.

ymarferol hefyd o ran sut y cynhaliwyd y gwaith maes. Trafodir y rhain ymhellach yn adrannau [2.5](#), [3.6](#) a [4.16](#).

1.3. Prawf Maes 2023

Yn sgîl saib yn y gwaith maes prif gam ar gyfer yr Arolwg Cenedlaethol yn ystod 2023-24, roedd Prawf Maes ar raddfa fawr wedi'i amserlennu'n wreiddiol ar gyfer y cyfnod rhwng mis Hydref a mis Rhagfyr 2023. Fodd bynnag, am bod gwaith sefydlu'n cymryd yn sylweddol hwy na'r disgwyl, bu oedi cyn dechrau'r gwaith maes ac fe gafodd y targed o ran maint y sampl ar gyfer y Gwaith Maes ei leihau o 2,000 o gyfweliadau i 600 o gyfweliadau ar sail 'ymdrechion gorau'. Fel y digwyddodd hi, fe gyflawnwyd 219 o gyfweliadau: 166 dros y ffôn a 53 wyneb yn wyneb.

Dechreuodd y gwaith maes ar 5 Rhagfyr 2023 ac fe barodd tan 7 Ionawr 2024 (gan gynnwys y dyddiad hwnnw). Fe ganolbwyntiodd yr ychydig wythnosau cyntaf yn bennaf ar y rhan ffôn (CATI), gyda chyfweliadau yn y cartref yn dechrau yn ystod yr wythnos yn dechrau 18 Rhagfyr 2023.

Dychmygwyd yn wreiddiol y byddai cyfwelwyr yn cael mynediad i ddechrau at y rhifau ffôn optio-i-mewn yn unig ar gyfer pythefnos cyntaf y gwaith maes, gyda'r rhifau ffôn tele-baru ar gael ar ddechrau wythnos 3. Fodd bynnag, gan bod yr oedi cyn dechrau'r gwaith maes wedi arwain at gyfnod byrrach nag a fwriadwyd ar gyfer y gwaith maes (i lawr o 12 wythnos i 5 wythnos), fe benderfynwyd y byddai'r rhan tele-baru'n dechrau ar ddiwedd wythnos gyntaf y gwaith maes yn lle hynny i ganiatáu ffenestr fer o waith maes tele-baru cyn i'r rhan yn y cartref ddechrau.

Ceir crynodeb mwy manwl o'r Prawf Maes yn yr Atodiad ([Atodiad H](#)).

1.4. Peilota 2024-25

Cynhaliwyd peilot seiliedig-ar-gwota ym mis Ionawr 2024, gan amcanu at adnabod unrhyw broblemau mawr gyda chynnwys terfynol a phrosesau'r arolwg ac i'w gwneud yn bosibl cywiro unrhyw broblemau cyn y prif arolwg. Defnyddiwyd y peilot hefyd i gasglu adborth cyfwelwyr am yr holiadur ac i ddarparu dealltwriaeth fanylach am hyd posibl cyfweliadau.

Ar y cyfan, fe gyflawnodd y peilot 226 o gyfweliadau a gwblhawyd, gyda 123 o arolygon dros y ffôn ac ar-lein a 103 o arolygon wyneb-yn-wyneb.

Y peilot oedd y cyfle cyntaf i werthuso nifer o fodiwlau nad oeddent wedi cael eu cynnwys ym mlynedd blaenorol yr arolwg. Roedd y rhain yn cynnwys Trosglwyddo'r Gymraeg, Llety Addas i Anghenion, Chwaraeon Cymru – Lefel Cyfranogiad, a Sŵn 2024-25.

1.5. Strwythur yr adroddiad

Mae'r adroddiad technegol hwn wedi'i fwriadu i ddarparu trosolwg o'r dull a ddefnyddiwyd i gasglu a phrosesu data'r Arolwg Cenedlaethol. Mae gweddill yr adroddiad hwn wedi'i rannu'n saith pennod, fel a ganlyn:

- Pennod 2 – Dyluniad a gweithredu'r sampl
- Pennod 3 – Cynnwys a datblygu'r holiadur
- Pennod 4 – Gwaith maes
- Pennod 5 – Prosesu ac allbwn data
- Pennod 6 – Pwysoli, diffyg ymateb a dadansoddi
- Pennod 7 – Arbrawf llythyr Ch2

2. Dyluniad a gweithredu'r sampl

2.1. Poblogaeth darged

Ceir dwy boblogaeth darged gysylltiedig ar gyfer Arolwg Cenedlaethol Cymru: (i) aelwydydd preswyl preifat yng Nghymru, a (ii) oedolion 16+ oed sy'n byw mewn aelwydydd o'r fath. Felly mae'r sampl flynyddol wedi'i sefydlu fel hap-ddetholiad un cam, haenedig o gyfeiriadau ledled Cymru.

2.2. Ffrâm y sampl

Ffrâm y sampl oedd Ffeil Cyfeiriadau Cod Post y Post Brenhinol (PAF)², wedi'i hidlo i gynnwys dim ond cyfeiriadau sydd wedi'u codio'n rhai 'preswyl'. Cafodd cyfeiriadau a samplwyd ar gyfer blynyddoedd blaenorol Arolwg Cenedlaethol Cymru neu ar gyfer unrhyw arolwg sampl tebygolrwydd gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol ers mis Ebrill 2020 eu gadael allan hefyd.

Fe wnaeth y cyfyngiad ychwanegol hwn leihau nifer y cyfeiriadau preswyl a oedd ar gael i'w samplu'n sylweddol, nes ei fod rhwng 52% (Powys) a 66% (Caerdydd) o'r cyfanswm ym mhob awdurdod lleol. Fodd bynnag, gall y set o gyfeiriadau a oedd heb eu cynnwys ym mhob awdurdod lleol gael ei thrin fel hap-sampl tebygolrwydd cyfartal o'r cyfan, gan olygu y gall y set o gyfeiriadau a oedd *ar gael* ym mhob awdurdod lleol gael ei thrin yn yr un ffordd.

Fe wnaeth un o ystadegwyr y Swyddfa Ystadegau Gwladol lunio'r 'uwch sampl' (gweler isod) gan ddilyn cyfarwyddiadau a ddarparwyd gan Verian. Darparwyd y cyfeiriadau a samplwyd yn Gymraeg ac yn Saesneg lle'r oedd y ddwy fersiwn ar gael.

2.3. Strwythur y sampl

Roedd y sampl wedi'i bwriadu i fod yn heb ei chlystyru dros unrhyw gyfnod o 12 mis, ond wedi'i chlystyru dros gyfnodau byrrach.

2.4. Ardaloedd aseiniad

Rhoddodd Verian gomisiwn i'r cwmni gwyddor data CACI gydgasglu pob un o'r 1,917 o Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is yng Nghymru yng Nghyfrifiad 2021 yn 419 o ardaloedd aseiniad, gyda nifer ragosodedig ar gyfer pob awdurdod lleol.³ Ym mhob awdurdod lleol, roedd yr ardaloedd aseiniad wedi'u bwriadu i fod ag (i) poblogaethau aelwydydd cyfartal fwy neu lai, a (ii) amseroedd gyrru ymarferol o fewn yr ardal.

² Ceir rhagor o wybodaeth am y Ganolfan trwyddedau PAF yma:

<https://www.poweredbypaf.com/postcode-address-file/>

³ <https://www.caci.co.uk/>

Cafodd nifer yr ardaloedd aseiniad ym mhob awdurdod lleol ei bennu gan y meintiau sampl targed gwreiddiol. Diwygiwyd y rhain yn ystod cyfnod arolwg 2024-25, ond fe gadwyd y diffiniadau o'r ardaloedd aseiniad.

Ym mhob awdurdod lleol, fe wnaeth Verian ddioli'r ardaloedd aseiniad ar sail (i) pa un a oedd yr Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is ynddi i gyd wedi'u dosbarthu'n rhai trefol, i gyd wedi'u dosbarthu'n rhai gwledig, ynteu'n gymysgedd o'r ddau, ac yna (ii) mynegai amddifadedd lluosog cyfartalog yr Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is ynddi. Cafodd yr ardaloedd aseiniad a ddiolwyd eu dyrannu'n systematig i chwarter sampl gan ddefnyddio dilyniant ailadroddus syml (Ch1-Ch2-Ch3-Ch4) ac yna yn yr un ffordd i fis o fewn y chwarter (M1-M2-M3).

2.5. Targedau ymateb a diwygiadau

Ym mhob awdurdod lleol, cafodd maint y sampl wreiddiol a ddyroddwyd ei bennu gan ddau ffactor:

- (i) pennu nifer sylfaenol o gyfweiliadau a fyddai – pe bai popeth yn mynd fel a fwriadwyd – yn cyflawni'r maint sampl lleiaf posibl a geisid gan Lywodraeth Cymru yn yr awdurdod lleol hwnnw
- (ii) gwneud newidiadau yn ddiweddarach i'r nifer sylfaenol ym mhob awdurdod lleol fel bod y *swm ar draws awdurdodau lleol* yn hafal i 12,000 a bod y maint sampl effeithiol cenedlaethol⁴ yn cael ei gynyddu i'r eithaf o fewn y cyfyngiad cyffredinol hwnnw

Roedd y targedau gwreiddiol yn amrywio o 350 ym Mlaenau Gwent, Sir Fynwy, Torfaen a Sir Ddinbych i 1,120 ym Mhowys. Ar ben hynny, am resymau cyllidebol, cafodd y targedau hyn ar lefel awdurdodau lleol eu troshaenu â thargedau cyffredinol fesul dull casglu data: byddai 6,960 (58%) o'r 12,000 o gyfweiliadau'n cael eu cynnal trwy gyfweiliad dros y ffôn a 5,040 trwy gyfweiliad wyneb-yn-wyneb (42%).

Defnyddiwyd yr un egwyddorion pan gafodd y targed o ran maint y sampl genedlaethol ei leihau o 12,000 i 8,000 o gyfweiliadau wedi'u cyflawni cyn dechrau'r gwaith maes yn dilyn adolygiad o'r costau. Fodd bynnag, roedd cyfyngiad ychwanegol bod angen i'r targed lleiaf ar lefel awdurdod lleol fod yn 315 o leiaf. Roedd y targedau diwygiedig yn amrywio o 315 mewn pymtheg o awdurdodau lleol i 742 (Powys). Cafodd y gymhareb a oedd yn bodoli eisoes rhwng cyfweiliadau dros y ffôn ac wyneb-yn-wyneb (58:42) ei chadw (4,640:3,360).

⁴ Rhaid i natur gymhleth dyluniad y sampl gael ei hystyried wrth gyfrif ystod bosibl y gwallau samplu. Mae effaith y dyluniad yn aml yn cael ei chynrychioli gan yr ystadegyn 'effaith dyluniad'. Er enghraifft, mae effaith dyluniad o 1.3 yn dynodi y dylid rhannu maint gwirioneddol y sampl ag 1.3 i gael y maint sampl ystadegol effeithiol. Y maint sampl ystadegol effeithiol yw maint cyfwerth hap-sampl syml a fyddai'n dwyn yr un faint o wallau samplu. Mae'r effaith dyluniad yn amrywio ar gyfer pob mesur yn yr arolwg

Ym mis Mai 2024, fe gynyddwyd y gyllideb a oedd ar gael ac felly cafodd y targed o ran maint y sampl genedlaethol ei ddiwygio eto, i fyny o 8,000 o aelwydydd i 9,400. Cafodd y targedau ar lefel awdurdodau lleol eu cynyddu'n gymesur. Roedd y targedau newydd yn amrywio o 370 mewn pymtheg o awdurdodau lleol i 872 (Powys). Rhoddwyd y dyluniad diwygiedig hwn ar waith o fis Gorffennaf 2024 (mis rhyddhau sampl 4).

Ym mis Hydref 2024, cafodd y targed cenedlaethol ei leihau i 6,500 yn dilyn adolygiad newydd o gostau pan oedd y cyfraddau cyswllt a chydweithredu'n gostwng. Pennwyd targed isaf o 255 ar lefel awdurdodau lleol ac roedd y targedau terfynol yn amrywio o 255 (Caerffili a Merthyr Tudful) i 604 (Powys). Cafodd y gymhareb rhwng cyfweiliadau dros y ffôn ac wyneb-yn-wyneb ei diwygio hefyd o 58:42 i 65:35 (4,200 o gyfweiliadau dros y ffôn a 2,300 o gyfweiliadau wyneb-yn-wyneb). Rhoddwyd y dyluniad newydd hwn ar waith o fis Rhagfyr 2024 (mis rhyddhau sampl 9).

Mae Tabl 2.1 yn dangos y meintiau sampl targed ar gyfer pob awdurdod lleol (maint gwreiddiol, maint diwygiedig cyntaf, ail faint diwygiedig a maint diwygiedig terfynol) yn ogystal â nifer yr ardaloedd aseiniad.

Awdurdod lleol	Bwrdd lechyd	Targed o ran aelwydydd yn ymateb				Ardaloedd aseiniad
		Gwreiddiol	Diwygiedig #1	Diwygiedig #2	Terfynol	
Castell-nedd Port Talbot	Abertawe Bro	487	315	370	256	17
Abertawe	Morgannwg	821	426	501	347	29
Blaenau Gwent	Aneurin Bevan	350	315	370	256	12
Caerffili		597	315	370	255	21
Sir Fynwy		350	315	370	256	12
Casnewydd		560	378	444	307	20
Torfaen		350	315	370	256	12
Ynys Môn	Betsi Cadwaladr	385	315	370	256	13
Conwy		408	315	370	256	14
Sir Ddinbych		350	315	370	256	12
Sir y Fflint		560	378	444	307	20
Gwynedd		399	315	370	256	14
Wrecsam		453	315	370	256	16
Caerdydd	Caerdydd a'r Fro	1,151	598	703	486	40
Bro Morgannwg		449	315	370	256	16
Merthyr Tudful	Cwm Taf	420	315	370	255	15
Rhondda Cynon Taf		808	420	494	340	28
Pen-y-bont ar Ogwr		488	315	370	256	17
Sir Gâr	Hywel Dda	640	333	392	271	22
Ceredigion		420	315	370	256	15
Sir Benfro		434	315	370	256	15
Powys	Powys	1,120	742	872	604	39
CYMRU		12,000	8,000	9,400	6,500	419

2.6. Yr uwch sampl

Ym mhob awdurdod lleol, gofynnwyd i'r Swyddfa Ystadegau Gwladol lunio 'uwch sampl' o'i rhifyn hi o'r PAF, a fyddai'n hafal i ddwywaith yr hyn y disgwyliad y byddai ei angen i gyrraedd y targedau gwreiddiol (h.y. bod digon o 'glustog' i ymorol am gyfraddau ymateb is na'r disgwyl). Darparodd Verian nifer o gyfeiriadau i'r Swyddfa Ystadegau Gwladol eu samplu ym mhob awdurdod lleol yn ogystal â chyfarwyddiadau ar gyfer didoli'r PAF ym mhob awdurdod lleol cyn samplu.

Er bod Verian wedi defnyddio Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is Cyfrifiad 2021 i lunio ardaloedd aseiniad, roedd rhifyn y Swyddfa Ystadegol o'r PAF wedi ei drefnu gan Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is Cyfrifiad 2011. O ganlyniad, nid oedd modd didoli'r PAF gan ddefnyddio Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is Cyfrifiad 2021. Yn lle hynny, darparodd Verian drefn ddidoli i'r Swyddfa Ystadegau Gwladol ar gyfer Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is Cyfrifiad 2011 ym mhob awdurdod lleol a oedd yn grwpio'r cyfeiriadau yn y ffordd orau yn ôl ardal aseiniad. O fewn y ffug ardaloedd aseiniad hyn, cafodd Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is Cyfrifiad 2011 eu didoli yn ôl (i) statws trefol/gwledig, yna (ii) mynegai amddifadedd lluosog.

Y drefn ddidoli ar gyfer cyfeiriadau o fewn Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is 2011 oedd (i) cod ardal gynnyrch Cyfrifiad 2011 (esgynnol), (ii) cod post (esgynnol), a (iii) llinell gyntaf y cyfeiriad (esgynnol).

Lluniwyd hap-sampl systematig o gyfeiriadau oddi mewn i bob awdurdod lleol ar ôl didoli fel uchod. Ar y cyfan, roedd yr uwch sampl a luniwyd yn cynnwys 65,405 o gyfeiriadau. Roedd y gyfradd drosi dybiedig (cyfweliadau/cyfeiriadau a ddyroddwyd) yn 12,000 (y targed cenedlaethol gwreiddiol) wedi'i rannu â $65,405/2 = 37\%$ (sy'n cyfateb i gyfradd ymateb o 41% gan dybio y byddai 11% o'r cyfeiriadau a samplwyd yn profi i fod yn rhai dibreswyl).

2.7. Samplu ar gyfer dyroddi o'r uwch sampl

Roedd y sampl gychwynnol o gyfeiriadau i'w dyroddi yn cynnwys traean o'r uwch sampl. Roedd hyn yn adlewyrchu'r ffaith (i) bod yr uwch sampl ddwywaith yn fwy na'r hyn y disgwyliad y byddai ei angen, a (ii) ers llunio'r uwch sampl, bod y targed o ran maint y sampl genedlaethol wedi cael ei leihau o 12,000 i 8,000. Ym mhob ardal aseiniad, cafodd yr uwch sampl o gyfeiriadau ei didoli yn ôl cod Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is Cyfrifiad 2021 (esgynnol), yna yn ôl cod ardal gynnyrch Cyfrifiad 2021 (esgynnol), ac yna yn ôl cod cyfeiriad PAF. Lluniwyd hap-sampl systematig yn seiliedig ar ffracsiwn samplu o 1 mewn 3.

Cafodd y cyfeiriadau a ddetholwyd eu didoli yn yr un ffordd cyn i ddau ymhob tri gael eu dyrannu i gyfweliadau wyneb-yn-wyneb dilynol os na chafwyd cyfweliad dros y ffôn. Fe wnaed hyn i reoli priod gyfraniadau cyfweliadau dros y ffôn ac wyneb-yn-wyneb at y cyfanswm (ac felly i gyd-fynd â'r cyfyngiadau cyllidebol ar gyfer yr arolwg yn ei gyfanrwydd).

2.8. Addasiadau i'r sampl a ddyroddwyd yn ystod gwaith maes

Fel a nodir yn [adran 2.5](#), fe wnaed nifer o addasiadau i'r cynllun cychwynnol hwn, mewn ymateb i batrymau deilliannau maes ac i newidiadau yn y targedau maint sampl. Roedd hyn yn cynnwys cynnydd yng nghyfran y cyfeiriadau yn yr uwch sampl a ddyroddwyd a gostyngiad yng nghyfran y cyfeiriadau wedi'u dyroddi a ddyrannwyd i gyfweliad wyneb-yn-wyneb dilynol. Manylir ar y newidiadau isod.

- Roedd tystiolaeth gynnar o fisoedd rhyddhau sampl 1 a 2 (Ebrill a Mai 2024) yn awgrymu cyfradd ymateb is-na'r-disgwyl dros y ffôn. Nid oedd y gyllideb yn ddigon i gynyddu nifer y cyfeiriadau a ddyrannwyd i gyfweliad wyneb-yn-wyneb dilynol, ond cafodd nifer y cyfeiriadau a ddyroddwyd i gyfweliad 'dros y ffôn yn unig' ym mis rhyddhau sampl 3 (Mehefin 2024) ei gynyddu bron 200% mewn ymgais i 'ddal i fyny'. Cafodd y cyfeiriadau hyn eu samplu'n systematig o'r gronfa wrth gefn fawr iawn yn yr uwch sampl.
- Cyn mis rhyddhau sampl 4 (Gorffennaf 2024), cafodd y targed o ran maint y sampl genedlaethol ei gynyddu o 8,000 i 9,400. Ar y cyd â thybjaeth barhaus y ceid cyfraddau ymateb is-na'r-disgwyl dros y ffôn, cafodd y samplau ym misoedd rhyddhau sampl 4-6 (Gorffennaf, Awst a Medi 2024) eu cynyddu ychydig yn fwy na 50% o ran eu maint yn berthynol i'r cynllun gwreiddiol. Fodd bynnag, cafodd y gyfran a ddyrannwyd i gyfweliadau wyneb-yn-wyneb dilynol ei lleihau o 67% i 55% i aros ar y trywydd iawn ar gyfer nifer y cyfweliadau wyneb-yn-wyneb y cyllidebwyd ar eu cyfer. Y dybiaeth newydd oedd mai 34% fyddai'r gyfradd ymateb, yn lle'r 42% a gynlluniwyd yn wreiddiol.
- Cytunwyd ar y diwygiad terfynol i'r targedau maint sampl ym mis Hydref a mis Tachwedd 2024 ac fe'i rhoddwyd ar waith o fis rhyddhau sampl 9 (Rhagfyr 2024). Un o'r nodweddion ar y dyluniad hwn oedd ymgais i leihau i'r eithaf yr amrywiad rhwng cyfraddau ymateb awdurdodau lleol gan hefyd gyrraedd targedau cenedlaethol sefydlog ar gyfer cyfweliadau dros y ffôn (4,200) a chyfweliadau wyneb-yn-wyneb (2,300). Fe arweiniodd hyn at amrywiad sylweddol rhwng awdurdodau lleol yn (i) meintiau'r samplau a ddyroddwyd (yn berthynol i'r cynllun a oedd yn bodoli), ac yn (ii) y gyfran a ddyrannwyd i gyfweliadau wyneb-yn-wyneb dilynol (a oedd yn amrywio o 0% yng Nghaerdydd i 100% mewn un ar ddeg o awdurdodau lleol). Ar y cyfan, y dybiaeth newydd ynglŷn â'r gyfradd ymateb oedd 20%, a oedd yn is o lawer na'r cynllun gwreiddiol, sef 42% neu'r diwygiad cynnar (Mehefin 2024) i lawr i 34%.

- Lluniwyd sampl ychwanegol fach (n=1,027) o rifyn Verian o PAF⁵ hefyd ym mis Hydref 2024 i'w defnyddio ym misoedd rhyddhau sampl 9-12 (Rhagfyr 2024 – Mawrth 2025), gan ddilyn yr un egwyddorion ag a ddisgrifir uchod heblaw bod daearyddiaeth Cyfrifiad 2021 wedi cael ei defnyddio yn lle daearyddiaeth Cyfrifiad 2011 ac nad oedd unrhyw eithriadau oherwydd samplau arolygon blaenorol. Roedd nifer y cyfeiriadau ychwanegol ar gyfer pob awdurdod lleol fel a ganlyn: Blaenau Gwent (+128), Sir Ddinbych (+125), Gwynedd (+188), Ynys Môn (+111), Sir Fynwy (+260) a Thorfaen (+215).

Dangosir cyfanswm nifer y cyfeiriadau a ddyroddwyd bob mis ym mhob awdurdod lleol yn **Nhabl 2.2** isod. Mae **Tabl 2.3** yn dangos y gyfran yr aethpwyd mor bell â'u dyrannu i gyfweliadau wyneb-yn-wyneb dilynol (os na chafwyd ymateb wrth geisio cynnal cyfweliad dros y ffôn). Ar y cyfan ledled Cymru, dyroddwyd 35,186 o gyfeiriadau ac fe ddyrannwyd 23,779 (68%) i gyfweliadau wyneb-yn-wyneb dilynol (a'r rheiny'n amrywio o 40% (Sir Benfro a Gwynedd) i 85% (Blaenau Gwent a Sir Ddinbych)). Yn naturiol, dim ond is-set o fewn y 23,779 hyn a ddyroddwyd i gyfweliad wyneb-yn-wyneb dilynol: ni chafodd cyfeiriadau eu cynnwys wrth ddyroddi (i) os oedd cyfweliad dros y ffôn wedi cael ei gyflawni yn barod neu ar fin cael ei gyflawni, (ii) os cafwyd gwrthodiad diamwys ar lefel yr aelwyd ar ôl anfon y llythyr rhag blaen, neu (iii) os cafwyd gwybodaeth a oedd yn cadarnhau nad oedd y cyfeiriad yn cynnwys unrhyw aelwydydd a oedd yn gymwys i gymryd rhan yn yr arolwg.

Tabl 2.2: Nifer y cyfeiriadau a ddyroddwyd ym mhob awdurdod lleol ym mhob mis o fewn y sampl

	2024									2025			Cyfanswm
	Ebr	Mai	Meh	Gor	Awst	Medi	Hyd	Tach	Rhag	Ion	Chwe	Maw	
Castell-nedd Port Talbot	89	42	71	127	64	71	221	76	190	201	94	96	1342
Abertawe	141	103	169	211	152	240	212	154	146	146	109	93	1876
Blaenau Gwent	50	58	77	75	85	74	103	79	163	196	193	197	1350
Caerffili	111	100	182	82	168	154	129	155	73	72	37	66	1329
Sir Fynwy	52	46	75	67	64	64	90	75	199	200	204	201	1337
Casnewydd	49	106	171	82	162	156	104	157	164	80	177	184	1592
Torfaen	50	44	72	70	72	71	110	70	192	197	205	201	1354
Ynys Môn	56	51	99	80	105	85	124	165	205	164	250	191	1575
Conwy	57	58	89	89	81	86	137	166	129	125	122	263	1402
Sir Ddinbych	50	52	77	84	74	76	116	81	162	187	200	178	1337
Sir y Fflint	106	51	176	165	89	170	239	84	132	130	152	61	1555
Gwynedd	58	124	84	89	165	89	133	77	209	244	186	211	1669
Wrecsam	49	51	185	90	69	153	109	139	102	98	102	198	1345
Caerdydd	153	219	297	318	249	254	487	237	84	88	122	107	2615
Bro Morgannwg	39	90	71	83	147	67	233	59	104	113	202	119	1327

⁵ Nid oedd rhifyn y Swyddfa Ystadegau Gwladol ar gael ar yr adeg honno

Merthyr Tudful	55	52	183	84	106	175	146	101	85	74	105	176	1342
Rhondda Cynon Taf	111	119	263	163	254	163	218	247	78	70	66	103	1855
Pen-y-bont ar Ogwr	115	49	79	142	67	68	215	75	87	185	168	84	1334
Sir Gâr	88	44	142	139	124	130	199	127	127	122	65	123	1430
Ceredigion	52	106	83	90	170	73	153	86	113	102	290	118	1436
Sir Benfro	106	57	88	191	83	93	123	77	125	273	135	142	1493
Powys	161	193	244	231	242	211	528	270	281	294	343	293	3291
CYMRU	1798	1815	2977	2752	2792	2723	4129	2757	3150	3361	3527	3405	35186

Tabl 2.3: Cyfran y cyfeiriadau wedi'u dyroddi a ddyrannwyd i gyfweiliadau wyneb-yn-wyneb dilynol (os na chafwyd ymateb wrth geisio cynnal cyfweiliad dros y ffôn) ym mhob awdurdod lleol ym mhob mis o fewn y sampl

	2024									2025			Cyfanswm
	Ebr	Mai	Meh	Gor	Awst	Medi	Hyd	Tach	Rhag	Ion	Chwe	Maw	
	%	%	%	%	%	%	%	%	%	%	%	%	%
Castell-nedd Port Talbot	66	67	41	55	55	55	86	100	100	100	100	100	82
Abertawe	67	67	41	55	55	55	85	100	100	100	100	100	74
Blaenau Gwent	68	67	40	56	55	55	85	100	100	100	100	100	85
Caerffili	67	68	41	56	55	55	85	100	100	100	100	100	72
Sir Fynwy	67	67	41	54	56	56	86	100	46	47	47	46	55
Casnewydd	67	67	41	56	56	56	86	100	100	100	100	100	78
Torfaen	68	66	40	56	56	56	85	100	90	90	90	90	80
Ynys Môn	68	67	40	56	55	55	85	100	19	19	19	19	44
Conwy	67	67	40	55	56	56	85	100	30	30	30	30	52
Sir Ddinbych	68	67	40	55	55	57	85	100	100	100	100	100	85
Sir y Fflint	67	67	41	55	55	56	85	100	100	100	100	100	76
Gwynedd	67	67	40	55	56	56	86	100	16	16	16	16	40
Wrecsam	67	67	41	56	55	56	85	100	100	100	100	100	78
Caerdydd	67	68	41	56	56	56	85	100	0	0	0	0	57
Bro Morgannwg	67	68	41	55	55	55	85	100	66	67	67	67	68
Merthyr Tudful	67	67	41	57	55	55	86	100	100	100	100	100	76
Rhondda Cynon Taf	68	67	41	56	56	56	85	100	100	100	100	100	72
Pen-y-bont ar Ogwr	68	67	41	55	54	56	86	100	99	99	99	99	80
Sir Gâr	66	66	41	55	56	55	85	100	86	87	86	86	73
Ceredigion	67	68	41	57	56	55	86	100	100	100	100	100	81
Sir Benfro	67	67	41	55	54	56	85	100	9	9	9	9	40
Powys	67	67	41	55	55	55	86	100	51	51	51	51	63
CYMRU	67	67	41	56	55	56	85	100	70	68	70	68	68

2.9. Samplu o fewn cyfeiriadau

Roedd disgwyl y byddai'r mwyafrif llethol (>97%) o gyfeiriadau PAF yn cynnwys un aelwyd ond, am na chafodd cyfeiriadau eu rhifo'n ffurfiol yn ystod y rhan dros y ffôn,

dim ond ar gyfer lleiafrif (y rhai yr ymwelodd cyfwelydd wyneb-yn-wyneb â hwy) y mae nifer yr aelwydydd yn y cyfeiriad yn hysbys. Felly, yn y rhan fwyaf o gyfeiriadau ag aelwydydd lluosog lle cyflawnwyd ymateb i'r arolwg, fe wnaeth un aelwyd hunan-ddethol (h.y. codi'r llythyr yn eu gwahodd i gymryd rhan yn yr arolwg dros y ffôn).

Mewn aelwydydd wedi'u samplu a adnabuwyd, fe wnaeth cyfwelydd o Verian/Beaufort ddethol un oedolyn (16+ oed) a oedd yn preswyllo'n barhaol⁶ i'w gyfweld. Detholwyd yr unigolyn hwn trwy weithdrefn hap-samplu a oedd wedi'i chynnwys fel rhan o'r ddalen gyswllt electronig a ddefnyddiwyd gan gyfwelwyr dros y ffôn ac wyneb-yn-wyneb.⁷ Cofnodwyd enw, rhyw ac oedran yr unigolyn hwn er mwyn gallu cysylltu â'r un unigolyn pe bai'r cyfwelydd yn newid rhwng eu dethol a chynnal y cyfweliad. Cafodd unrhyw newidiadau diweddarach i strwythur yr aelwyd eu hanwybyddu (h.y. pennwyd y set o unigolion cymwys ar y dyddiad dethol). Gofynnwyd i'r unigolyn a ddetholwyd ddarparu data ar lefel unigolyn ac ar lefel yr aelwyd.

Lle gwnaeth tele-baru adnabod mwy nag un rhif ar gyfer cyfeiriad, roedd y ddau rif ar gael i gyfwelwyr ond fe flaenoriaethwyd y rhif symudol (gan y tybid y byddai hyn yn cynnig tebygolrwydd uwch o siarad yn uniongyrchol gyda'r ymatebydd o'r dechrau un).

⁶ Unrhyw un 16 oed neu drosodd sy'n byw yn yr aelwyd, gan gynnwys unrhyw letywyr sy'n byw fel rhan o'r aelwyd a chan gynnwys unrhyw un sy'n byw yn y cyfeiriad fel arfer ond sydd i ffwrdd (ond nad ydynt / nad oes disgwyl iddynt fod i ffwrdd am yn hwy na chwe mis).

⁷ Cafodd preswylwyr 16+ oed wedi'u rhifo yn yr aelwyd eu rhestru yn unrhyw drefn gyda thag adnabod (eu henw fel arfer) i wahaniaethu rhwng pob un. Cynhyrchwyd hap-gyfanrif n a oedd rhwng 1 a chyfanswm nifer y preswylwyr 16+ oed wedi'u rhifo. Detholwyd yr n^{fed} person yn y rhestr ar gyfer cyfweliad.

3. Cynnwys a datblygu'r holiadur

3.1. Trosolwg o'r holiadur

Roedd Arolwg Cenedlaethol 2024-25 yn cynnwys 70 o fodiwlau. Roedd y rhain yn cwrmpasu ystod o destunau i ddiwallu anghenion Llywodraeth Cymru, yn ogystal â thri o'r cyrff a noddir gan Lywodraeth Cymru: Chwaraeon Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru a Chyngor Celfyddydau Cymru. Cafodd rhai testunau eu his-samplu, a oedd yn dal i'w gwneud yn bosibl casglu amcangyfrifon cadarn ar lefel genedlaethol gan hefyd gadw hyd cyfartalog cyfweliadau'n hydrin.

Ar y cyfan, fe rannwyd yr holiadur yn ddwy adran. Roedd y cwestiynau yn y brif adran gyntaf wedi'u bwriadu i gael eu gofyn gan y cyfwelydd dros y ffôn neu wyneb yn wyneb yn y cartref. Ar ôl yr adran hon, roedd ail adran fyrrach, a oedd yn adran hunan-gwblhau. Roedd hon yn cael ei chwblhau naill ai trwy gyfweld dros y we gyda chymorth cyfrifiadur (CAWI) gan ymatebwyr dros y ffôn neu drwy hunan-gyfweld gyda chymorth cyfrifiadur (CASI) gan ddefnyddio llechen y cyfwelydd gan ymatebwyr wyneb-yn-wyneb. Yn y naill achos a'r llall gellid cwblhau'r adran hon gyda chymorth cyfwelydd lle'r oedd yr ymatebydd yn gofyn am hyn. Lle'r oedd yr adran hunan-gwblhau'n cael ei chwblhau gyda chymorth cyfwelydd neu aelod arall o'r aelwyd (am resymau hygrychedd), roedd modiwlau cwestiynau sensitif yn cael eu hepgor.

3.2. Cynnwys yr holiadur

Roedd manyleb gychwynnol yr holiadur a ddarparwyd ar gyfer Verian yn canolbwyntio'n gyfan gwbl ar y fersiwn ffôn o'r arolwg, gyda Verian a Llywodraeth Cymru'n cydweithio i gwblhau cwestiynau ar ddechrau a diwedd yr arolwg ar gyfer cyfweliadau a fyddai'n cael eu cwblhau yn y cartref, yn ogystal â mân-newidiadau i'r dulliau CAWI a CASI.

Roedd yr elfennau ffôn (CATI) ac wyneb-yn-wyneb (CAPI) terfynol o'r arolwg yn cynnwys ychydig o dan 60 o brif fodiwlau, a oedd wedi'u categorio'n fras fel a ganlyn:

- trefniadau gweinyddol yr arolwg ar y dechrau, er enghraifft gwirio'r cyfeiriad a dethol yr unigolyn
- demograffeg, er enghraifft hunaniaeth genedlaethol, ethnigrwydd a chyfeiriadedd rhywiol
- cyflogaeth ac addysg, er enghraifft gwaith teg ac oedraniaeth
- ardal leol a chymuned, er enghraifft awdurdodau lleol a diogelwch cymunedol
- cyllid, er enghraifft amddifadedd materol aelwydydd a thlodi bwyd

- rhieni a phlant, er enghraifft ysgolion a gofal plant
- llesiant, iechyd a gweithgarwch corfforol, er enghraifft gofalwyr di-dâl ac afiechyd hirdymor
- Chwaraeon Cymru, er enghraifft cyfranogiad a galw nas bodlonir
- gwasanaethau iechyd, er enghraifft gofal clyw a llygaid
- modiwlau boddhad, er enghraifft boddhad gyda gwasanaethau iechyd a Llywodraeth Cymru
- y celfyddydau a diwylliant, er enghraifft presenoldeb mewn digwyddiadau celfyddydol a chyfranogiad yn y celfyddydau

Roedd yr adrannau hunan-gwblhau, a oedd yn cael eu cwblhau ar-lein (CAWI) neu â llechen (CASI), yn cynnwys 16 o brif fodiwlau, a gaiff eu crynhoi isod⁸:

- gwasanaethau gofal iechyd heblaw meddyg teulu
- iechyd EQ-5D-5L (*)
- Cyfoeth Naturiol Cymru (e.e. perygl llifogydd)
- Sŵn 2024-25
- dinasyddiaeth fyd-eang
- cosbi plant yn gorfforol (*)
- Graddfa Llesiant Meddyliol Warwick-Caeredin (WEMWBS) neu Raddfa Fer Llesiant Meddyliol Warwick-Caeredin (SWEMWBS) (*)
- gwahaniaethu a bwlio (*)
- gwirfoddoli

Er nad oedd y rhan fwyaf o fodiwlau'n amrywio yn ôl dull, roedd nifer fach o fodiwlau'n gwneud hynny, gyda rhai'n berthnasol dim ond i rai dulliau penodol. Er enghraifft, roedd y modiwlau a oedd yn cyflwyno ac yn cloi'r adrannau hunan-gwblhau'n amrywio gan ddibynnu a oedd yr arolwg yn cael ei gwblhau ar-lein ynteu ar lechen cyfwelydd.

Tra bo'r cyfwelydd yn trosglwyddo'u llechen i hwyluso'r broses o gwblhau'r adran hunan-gwblhau ar ddiwedd cyfweliad yn y cartref, roedd yr adran hunan-gwblhau ar ddiwedd cyfweliad dros y ffôn yn cael ei chwblhau ar-lein.

Ar ddiwedd yr arolwg dros y ffôn, roedd neges e-bost yn cael ei hanfon at gyfranogwyr â mynediad at y rhyngwrdd a honno'n cynnwys eu cod mynediad unigryw ac URL. Pan

⁸ Roedd modiwlau â * ar eu pwys yn cynnwys un neu fwy nag un cwestiwn sensitif nad oeddent yn cael eu gofyn os oedd yr ymatebydd yn cael cynhorthwy neu gymorth i gwblhau'r adran hunan-gwblhau.

oeddent yn ymweld â'r URL roeddent yn cael eu hailgyfeirio at y dudalen fewngofnodi i gwblhau'r arolwg ar-lein ar adeg a oedd yn gyfleus iddynt hwy. Mae holiadur llawn 2024-25 i'w chael yn [Arolwg Cenedlaethol Cymru - Holiadur 2024-25](#).

Roedd rhaid i ymatebwyr gwblhau'r cyfweiliad dros y ffôn a'r arolwg ar-lein er mwyn cael taleb siopa £15 fel 'arwydd o ddiolch' am gymryd rhan yn yr arolwg. Yn yr un modd, roedd rhaid iddynt gwblhau'r ddwy elfen o'r arolwg yn y cartref (hynny yw, CAPI a CASI) er mwyn cael y daleb £15.

3.3. Rhaglennu a phrofi'r holiadur

Cafodd yr holiadur ei sgriptio gan BMR, Hyb Datrysiadau Data Verian ym Mwlglaria, gan ddefnyddio Forsta Plus, meddalwedd arolygon Verian. Fe raglennwyd un sgript ar gyfer yr arolwg dros y ffôn a'r arolwg yn y cartref.

Roedd y sgript yn cynnwys cyfres o wiriadau meddal a chaled i amlygu sefyllfaoedd lle'r oedd ateb (neu gyfuniad o atebion) yn annhebygol neu lle'r oedd atebion i gwestiynau gwahanol yn anghyson.

Roedd **gwiriadau meddal** yn rhoi rhybudd i'r cyfwelydd/ymatebydd i adolygu un neu fwy o'r atebion a roddwyd ond yn caniatáu parhau â'r arolwg os oedd yr wybodaeth yn cael ei chadarnhau wedyn gan y cyfwelydd/yr ymatebydd.

Yn yr un modd roedd **gwiriadau caled** yn rhoi rhybudd i'r cyfwelydd/ymatebydd i adolygu un neu fwy o'r atebion, ond yn yr achosion hyn ni allai'r cyfwelydd/ymatebydd barhau nes bod un neu fwy o'r atebion blaenorol wedi cael ei gywiro/eu cywiro.

Yn ystod y broses sgriptio fe gynhaliwyd gwiriadau cynhwysfawr gan Verian a chan Lywodraeth Cymru i sicrhau bod y sgript derfynol yn rhoi gwir adlewyrchiad o'r holiadur a nodwyd yn y fanyleb. Roedd y rhain yn cynnwys gwirio'r canlynol:

- bod testun y cwestiwn yn cyfateb i'r fanyleb drwyddi draw.
- bod llwybrau'r cwestiynau wedi'u rhaglennu fel a nodwyd yn y fanyleb. I hwyluso hyn, fe brofwyd amryw senarios (ar lefel aelwydydd ac ar lefel ymatebion) i sicrhau bod y llwybrau'n adlewyrchu'r fanyleb drwyddi draw.
- bod rhestrau ymatebion yn cyfateb i fanyleb yr holiadur a bod ymatebion wedi'u trefnu ar hap lle'r oedd yn briodol.
- bod cyfarwyddiadau i'r cyfwelydd/ymatebydd ar y sgrîn yn eglur ac yn adlewyrchu manyleb yr holiadur; cafodd sgriniau gwybodaeth eu gwirio yn yr un modd.
- bod llenwadau testun yn dangos yn gywir – roedd hyn yn cynnwys llenwadau testun cwestiynau a llenwadau testun ymatebion.

- bod gwiriadau meddal a chaled, fel a amlinellir uchod, yn cael eu sbarduno fel oedd yn berthnasol
- bod enwau/labeli cwestiynau'n cyfateb i fanyleb yr holiadur
- bod llywio sgrïpt yn gweithio fel a fwriadwyd fel bod:
 - cyfwelwyr yn gallu symud ymlaen/yn ôl fel oedd yn ofynnol yn ystod y cyfweliad
 - ymatebwyr ddim yn gallu dychwelyd at fodiwlau a gwblhawyd yn flaenorol yn ystod yr holiadur hunan-gwblhau, i gynnal diogelwch eu data
- bod ymarferoldeb o ran ieithoedd yn gweithio'n gywir:
 - bod ymatebwyr yn gallu dewis yr iaith ar y dechrau
 - bod ymatebwyr yn gallu newid yn ôl ac ymlaen rhwng Cymraeg a Saesneg ar ganol y cyfweliad os oeddent yn dymuno.

3.4. Newidiadau i'r holiadur

Yn dilyn peilot 2024-25, fe wnaed nifer fach o newidiadau i'r holiadur cyn dechrau'r gwaith maes prif gam.

Tynnwyd un modiwl (sgiliau rhynggrwyd) allan yn gyfan gwbl, tra bo modiwl Sŵn 2024-25 wedi cael ei symud o'r prif arolwg i mewn i adran hunan-gwblhau'r arolwg. Ochr yn ochr â hyn, fe wnaed nifer o newidiadau ychwanegol yn seiliedig ar adborth gan gyfwelwyr ac adolygiad mwy cyffredinol o offeryn yr arolwg.

Roedd y newidiadau'n cynnwys y canlynol:

- dim ond mewn perthynas â'r ymatebydd yr oedd y cwestiynau am ryngberthnasoedd yn yr aelwyd yn cael eu gofyn, yn hytrach na'u bod yn cael eu gofyn yng nghyd-destun pob un berthynas yn yr aelwyd.
- fe addaswyd un o'r hidlyddion ym modiwlau Chwaraeon Cymru yn SWFilter fel nad oedd trwch y cwestiynau am gyfranogiad yn cael eu dangos os nad oedd yr ymatebydd wedi cymryd rhan mewn gemau neu chwaraeon, os oedd yn oedrannus neu'n anabl, neu os oedd wedi dynodi'n flaenorol nad oedd yn gwneud unrhyw weithgarwch corfforol.
- cafodd cwestiynau am enwau ysgolion a fynychwyd gan blant yn yr aelwyd eu haddasu i gynyddu effeithiolrwydd y gallu i chwilio (cafodd yr algorithm ei ddiweddarau yn seiliedig ar allu i chwilio gan ddefnyddio 'tri nod').
- cafodd cwestiynau a oedd yn ymwneud â chyflyrau iechyd penodol eu haddasu yn yr un modd i gynyddu effeithiolrwydd y gallu i chwilio.
- fe wnaed mân newidiadau i'r geiriad mewn modiwlau Chwaraeon Cymru penodol ac i HazNoise2

Fe wnaed nifer o newidiadau ychwanegol ar ôl i arolwg prif gam 2024-25 fynd yn fyw, gyda newidiadau'n cael eu cyflwyno ym mis Mehefin 2024 ac ym mis Chwefror 2025, sef:

- cyflwyno is-samplu ychwanegol ym mis Mehefin 2024 o ganlyniad i ganfod bod hyd yr arolwg ar y cyfan yn fwy nag a amcangyfrifwyd yn wreiddiol (gweler [Adran 3.8](#) am ragor o fanylion).
- fe gynhwyswyd modiwl gwrthod hefyd yn adrannau rhagarweiniol yr arolwg ym mis Mehefin 2024. Fe ychwanegwyd y modiwl hwn i ddarparu rhagor o fanylion am y rhai a wrthododd gymryd rhan: pwy yn penodol yn yr aelwyd a wrthododd gymryd rhan, a'r rhesymau dros wrthod.
- fe gyflwynwyd newid pellach ym mis Chwefror 2025 pan adnabuwyd fod manyleb wreiddiol modiwl Sŵn 2024-25 yn yr adran hunan-gwblhau yn cynnwys hidlo anghywir. Fe ddiwygiwyd yr hidlyddion i adlewyrchu'r bwriad gwreiddiol yn hytrach na'r fanyleb wreiddiol.

3.5. Cyfieithiad Cymraeg

Fel gyda holl ddeunyddiau'r arolwg a'r porth optio-i-mewn, roedd yr Arolwg Cenedlaethol ar gael yn Gymraeg neu yn Saesneg, gyda'r iaith yn cael ei dewis fel rhan o'r cyflwyniad i'r arolwg neu drwy fotwm newid iaith yn y sgript os oedd y cais yn cael ei wneud yn ystod yr arolwg ei hun. Ar y dechrau fe wnaeth Llywodraeth Cymru ddarparu offeryn holiadur yn Gymraeg ac yn Saesneg ar gyfer Verian, gyda'r fersiwn Gymraeg yn cael ei chwblhau unwaith yr oedd fersiwn Saesneg y sgript wedi cael ei chymeradwyo'n derfynol.

Fe wiriwyd ansawdd fersiwn Gymraeg yr holiadur gan Lywodraeth Cymru a chan Beaufort cyn peilot 2024-25 a gofynnwyd i'r cyfwelwyr am unrhyw adborth ar yr iaith neu'r geiriad a ddefnyddiwyd fel rhan o'r adborth ar y peilot. Er bod fersiwn Gymraeg o'r holiadur wedi cael ei datblygu a'i rhannu gyda Llywodraeth Cymru, Verian oedd yn gyfrifol am y cyfieithiad o sgript y porth optio-i-mewn (mewn partneriaeth gyda Beaufort).

Ar gyfer sgript y porth a sgript y prif arolwg, cafodd fersiwn Gymraeg yr holiadur ei rhoi ar waith ar ffurf troshaen, sef i bob pwrpas copïo'r testun Cymraeg ar gyfer y sgript i mewn i'r sgript Saesneg, gyda'r holl nodweddion codio a rhaglennu eraill yn aros union yr un fath. Mewn geiriau eraill, dim ond un sgript oedd, gydag opsiwn Cymraeg neu Saesneg, yn hytrach na dwy sgript.

Cafodd yr holl deunyddiau gwybodaeth ar gyfer aelwydydd ac ymatebwyr eu cynhyrchu a'u dosbarthu yn Gymraeg ac yn Saesneg.

3.6. Amseriadau'r cyfweiliadau

Yn seiliedig ar rifynnau blaenorol o'r arolwg, fe amcangyfrifwyd i ddechrau y byddai'r brif adran yn cymryd oddeutu 30 munud i'w chwblhau dros y ffôn, gyda'r disgwyl y byddai'r adran hunan-gwblhau ar-lein ddilynol yn cymryd hyd at 15 munud. Roedd disgwyl i'r cyfweiliad yn y cartref gymryd 45 munud i gyd, gydag oddeutu 30 munud yn gwestiynau a weinyddwyd gan y cyfwelydd, ac oddeutu 15 munud wedi'u haseinio i adran hunan-gwblhau'r arolwg.

Er bod data hyd cyfweiliadau wedi cael ei adolygu ar ôl y peilot, canfuwyd fod y cyfrifiadau a danategodd hyn yn anghywir. Gan hynny, tybiwyd fod yr arolwg peilot yn rhedeg am lai o amser na'r amseriadau (canolrifol) arfaethedig. O ganlyniad, fe ofynnodd Llywodraeth Cymru am dynnu'r rhan fwyaf o'r rhesymeg is-samplu allan cyn y lansiad llawn a bod yr arolwg yn cael ei ofyn i'r holl ymatebwyr lle'r oedd yn bosibl.


Fe adnabuwyd achos y camgyfrifiad tuag at ddiwedd mis Mai 2024. Roedd yr amseriadau wedi'u cywiro'n dynodi bod yr arolwg CAPI yn rhedeg am yn hwy nag a fwriadwyd ac roedd yr effaith ar y cyfweiliad CATI yn fwy amlwg byth. Felly fe ailgyflwynwyd yr is-samplu gwreiddiol i mewn i'r offeryn ym mis Mehefin 2024, ochr yn ochr â swm cyfyngedig o is-samplu ychwanegol.

Ar draws yr holl ymatebwyr, 52 munud oedd yr amser canolrifol a gofnodwyd ar gyfer yr arolwg. Mae **Tabl 3.1** yn dangos hyd cyfartalog cyfweiliadau yn ôl dull ar draws holl flwyddyn yr arolwg wedi'i rannu yn ôl y sefyllfa pa un a gymhwyswyd is-samplu ai peidio. Fodd bynnag, oherwydd materion technegol, nid yw'r amseriadau CATI a gofnodwyd ac a nodir isod yn mesur yn gywir faint o amser a gymerodd i ofyn/ateb pob cwestiwn *mewn gwirionedd*, yn rhannol oherwydd oedi wrth i'r sgrïpt symud rhwng cwestiynau. Dangosir yr amseriadau hyn mewn cromfachau yn Nhabl 3.1. Gweler [adran 3.7](#) am ragor o fanylion.

Tabl 3.1: Hyd cyfartalog cyfweiliadau yn ôl dull						
	Amser canolrifol (munudau)			Amser cymedrig (munudau)		
Dull	Ar y cyfan	Heb unrhyw is-samplu	Is-samplu wedi'i gymhwyso	Ar y cyfan	Heb unrhyw is-samplu	Is-samplu wedi'i gymhwyso
Prif adran CATI	(44)	(48)	(43)	(46)	(51)	(45)
CAWI	13	14	13	15	16	15
Prif adran CAPI	29	37	28	32	38	31
CASI	9	10	9	10	11	10


Ceir histogramau sy'n crynhoi'r data amseriadau yn ôl dull yn Siartiau 3.1 i 3.4 isod.

Siart 3.1 Hyd y cyfveliadau CATI (mewn munudau; sylwer fod amseriadau CATI yn cynnwys amser ychwanegol oherwydd oedi a ychwanegwyd gan y sgript)




Disgrifiad o siart 3.1: graff bar yn dangos hyd y cyfveliadau CATI. Roedd y rhan fwyaf o gyfveliadau rhwng 30 a 60 munud.

Siart 3.2 Hyd y cyfveliadau CAWI




Disgrifiad o siart 3.2: graff bar yn dangos hyd y cyfveliadau CAWI. Roedd y rhan fwyaf o gyfveliadau rhwng 5 ac 20 munud.

Siart 3.3 Hyd y cyfveliadau CAPI



Disgrifiad o siart 3.3: graff bar yn dangos hyd y cyfveliadau CAPI. Roedd y rhan fwyaf o gyfveliadau rhwng 0 a 40 munud.


Siart 3.4 Hyd y cyfveliadau CASI



Disgrifiad o siart 3.4: graff bar yn dangos hyd y cyfveliadau CASI. Roedd y rhan fwyaf o gyfveliadau rhwng 5 a 15 munud.


Mae **Siartiau 3.5-3.8** yn dangos hyd (canolrifol a chymedrig) y cyfweiliadau fesul mis gan ddechrau â'r rhai dros y ffôn ac ar-lein, ac yna'r rhai yn y cartref a hunan-gwblhau â llechen.

Siart 3.5 Hyd y cyfweiliadau CATI fesul mis



Disgrifiad o siart 3.5: graff bar yn dangos hyd canolrifol a chymedrig y cyfweiliadau CATI rhwng mis Mawrth 2024 a mis Mawrth 2025. Roedd yr amser canolrifol yn amrywio o 37 munud ym mis Hydref i 59 munud ym mis Mawrth 2025. Roedd yr amser cymedrig yn amrywio o 40 munud ym mis Tachwedd i 54 munud ym mis Mawrth 2025.


Siart 3.6 Hyd y cyfweiliadau CAWI fesul mis



Disgrifiad o siart 3.6: graff bar yn dangos hyd canolrifol a chymedrig y cyfweiliadau CAWI rhwng mis Mawrth 2024 a mis Mawrth 2025. Roedd yr amser canolrifol yn


amrywio o 12 munud ym mis Hydref a mis Tachwedd i 15 munud ym mis Ebrill. Roedd yr amser cymedrig yn amrywio o 14 munud ym mis Awst, mis Hydref a mis Tachwedd i 23 munud ym mis Mawrth 2025.

Siart 3.7 Hyd y cyfweiliadau CAPI fesul mis



Disgrifiad o siart 3.7: graff bar yn dangos hyd canolrifol a chymedrig y cyfweiliadau CAPI rhwng mis Ebrill 2024 a mis Mawrth 2025. Roedd yr amser canolrifol yn amrywio o 25 munud ym mis Gorffennaf i 38 munud ym mis Mai. Roedd yr amser cymedrig yn amrywio o 29 munud ym mis Gorffennaf a mis Rhagfyr i 39 munud ym mis Mai 2025.

Siart 3.8 Hyd y cyfweiliadau CASI fesul mis



Disgrifiad o siart 3.8: graff bar yn dangos hyd canolrifol a chymedrig y cyfweiliadau CASI rhwng mis Ebrill 2024 a mis Mawrth 2025. Roedd yr amser canolrifol yn amrywio o 7 munud ym mis Rhagfyr i 11 munud ym mis Mai. Roedd yr amser cymedrig yn amrywio o 9 munud ym mis Awst a mis Rhagfyr i 12 munud ym mis Mai a mis Tachwedd.

3.7. Amrywiad rhwng amseriadau'r cyfweiliadau dros y ffôn a'r cyfweiliadau yn y cartref

Fel a ddangosir yn Nhabl 3.1, roedd amrywiad nodedig yn amseriadau'r cyfweiliadau yn ôl dull (CAPI a CATI), cyn ac ar ôl yr addasiad is-samplu. Roedd dau ffactor allweddol a ddylanwadodd ar hyn:

- Anghysondeb gwasanaeth rhynggrwyd, yn enwedig mewn ardaloedd mwy gwledig yng Nghymru. Tra bo'r fersiwn o'r cyfweiliad a gynhaliwyd yn y cartref yn cael ei gynnal all-lein a dim ond yn cael ei lanlwytho i blatfform casglu data Forsta ar ddiwedd pob dydd gan y cyfwelydd, roedd y fersiwn ffôn o'r sgript yn cael ei lanlwytho mewn amser real wrth i'r cyfwelydd gynnal yr arolwg gyda'r ymatebydd. Roedd hyn yn golygu bod yr amser llwytho (amser yr oedd yn ei gymryd i ddiweddarau sgriniau rhwng cwestiynau) yn cymryd yn hwy yn y cyfweiliad dros y ffôn o'i gymharu â'r cyfweiliad wyneb-yn-wyneb a bod y cyflymder yn amrywio gan ddibynnu ar y gwasanaeth rhynggrwyd yn y rhanbarth penodol hwnnw yng Nghymru.
- Fel a ofynnwyd gan Lywodraeth Cymru ar y dechrau, roedd gan yr holl gwestiynau yn yr Arolwg Cenedlaethol eu stampiau amser (unigol) eu hunain i'w gwneud yn bosibl cael dealltwriaeth ronynnog am yr amser a dreuliwyd ar bob cwestiwn yn ôl dull. Er nad effeithiodd hyn ar y fersiwn all-lein o'r arolwg a ddefnyddiwyd mewn cyfweiliadau wyneb-yn-wyneb, fe wnaeth nifer y newidynnau stampiau amser greu 'oedi' pellach gyda'r arolwg dros y ffôn (amseroedd llwytho tudalennau), a oedd yn fwy amlwg mewn rhanbarthau penodol yng Nghymru â gwasanaeth rhynggrwyd gwaeth. Yn sgîl y problemau technegol hyn, nid yw'r amseriadau ffôn a gofnodwyd yn fesur cywir felly o faint o amser a gymerwyd i ofyn ac ateb pob cwestiwn mewn gwirionedd.

I geisio ymdrin â'r materion hyn fe wnaed gwaith gan Verian unwaith yr oedd yr arolwg yn fyw, i symleiddio'r broses stampiau amser heb effeithio ar ronynogrwydd y data amseriadau. Fodd bynnag, nid oedd yn bosibl i ddatrysiaid technegol wedi'i symleiddio'n fwy a oedd yn dal i ddarparu amseriadau ar lefel cwestiynau gael ei ddatblygu yn ystod y gwaith maes. Fe wnaeth hyn hi'n angenrheidiol cadw'r set lawn o newidynnau stampiau amser tra parodd gwaith maes 2024-25.

Gofynnwyd hefyd i Verian ymchwilio i'r potensial i gyflwyno fersiwn all-lein o'r arolwg dros y ffôn, yn debyg i'r dull a ddefnyddiwyd ar gyfer cyfweiliadau yn y cartref, er mwyn lleihau hyd (a darparu data amseriadau cywir ar gyfer) y cyfweiliadau dros y ffôn. Fodd

bynag byddai maint y newid a oedd yn ofynnol i addasu'r dull ar gyfer y cyfweiliadau dros y ffôn wedi golygu bod angen cyfnod datblygu (a sicrhau ansawdd) sylweddol ochr yn ochr â'r arolwg a oedd yn bodoli eisoes. Gan hynny, fe hysbyswyd Llywodraeth Cymru nad oedd yn ddichonadwy creu fersiwn (all-lein) bwrpasol o'r sgript yn ystod y gwaith maes.

3.8. Ffracsiynau is-samplu

Mae is-samplu'n berthnasol i nifer o fodiwlau, neu grwpiau o fodiwlau, yn yr holiadur. Proses awtomatig a sefydlwyd yn y sgript yw hon sy'n pennu i bwy y gofynnir modiwlau yn seiliedig ar reolau rhagddiffiniedig. Cafodd peth is-samplu o'r peilot ei gario drwodd i'r prif gam, er enghraifft cafodd y fersiynau byr a hwy o fodiwlau Graddfa Llesiant Meddyliol Warwick-Caeredin ill dwy eu gofyn i hap-sampl o 50% o ymatebwyr, gyda'r fersiwn fer neu'r fersiwn hir o'r cwestiynau'n cael ei gofyn i ymatebwyr.

Cafodd modiwlau Sŵn 2021-22 a Sŵn 2024-25 eu his-samplu yn yr un modd, yn seiliedig ar raniad tybiannol o 25% (2021-22) a 75% (2024-25). Gan bod modiwl Sŵn 2024-25 yn yr adran hunan-gwblhau, roedd y rhaniad tybiannol o 75%, mewn realiti, yn is, gan na wnaeth nifer fach o ymatebwyr gwblhau'r adran hunan-gwblhau, gan felly hepgor cwestiynau Sŵn 2024-25 yn llwyr. Fel a amlinellir uchod, roedd manyleb wreiddiol modiwl Sŵn 2024-25 pan gafodd ei symud i mewn i'r adran hunan-gwblhau yn anghywir, gan felly leihau ymhellach nifer yr ymatebwyr a gwblhaodd y modiwl.

Er bod y rhan fwyaf o'r elfen is-samplu wedi cael ei thynnu allan cyn dechrau'r gwaith maes, fel a nodir uchod, bu'n rhaid ail-gyflwyno is-samplu ychwanegol yn ystod y gwaith maes i helpu i leihau hyd yr arolwg ar y cyfan.

Cafodd y modiwlau canlynol eu gofyn i'r holl ymatebwyr yn wreiddiol ond o ddiwedd mis Mehefin 2024 dim ond i is-set o ymatebwyr y'u gofynnwyd.

- boddhad gyda'r system addysg
- boddhad gyda gwasanaethau iechyd
- boddhad gyda Llywodraeth Cymru
- iechyd y boblogaeth: BMI, Beichiog, Gweithgarwch corfforol, Ysmygu, Alcohol, Diet
- is-sampl y celfyddydau: Presenoldeb mewn digwyddiadau celfyddydol, Cyfranogiad yn y celfyddydau, Cyngor Celfyddydau Cymru – digwyddiadau celfyddydol Cymraeg, a Chyngor Celfyddydau Cymru - Rhwystrau
- gofal llygaid

- nam ar y clyw
- gwasanaethau meddyg teulu

Ceir rhestr lawn o'r elfen is-samplu wedi'i diweddaru yn [Atodiad A](#).

4. Gwaith maes

4.1. Recriwtio cyfwelwyr

Dechreuodd yr ymarfer recriwtio ar gyfer cyfwelwyr dri mis cyn bod y prif waith maes i fod i ddechrau.

Cyn dechrau'r gwaith maes, cafodd y ddwy asiantaeth yr aseiniadau gwaith maes fesul mis ar gyfer y flwyddyn arolwg lawn. Cafodd yr wybodaeth hon ei hystyried yn erbyn cyfeiriadau cartref cyfwelwyr a oedd eisoes ar y priod baneli. Fe wnaeth yr ymarfer hwn amlygu capasiti cyfwelwyr presennol (cyfredol) a galluogi'r ddwy asiantaeth i ddeall yn well ble yr oedd angen cyfrif pennau ychwanegol ac i dargedu gweithgarwch recriwtio yn unol â hynny.

Cynhaliwyd asesiadau misol rheolaidd o ymdrechion recriwtio i adnabod unrhyw fylchau o ran adnoddau ac ymdrin â hwy yn brydlon. Mewn rhai ardaloedd lle profodd recriwtio yn gryn her fe adnabuwyd adnoddau cyfweld amgen i lenwi bylchau: er enghraifft, cyfwelwyr a oedd yn teithio i mewn o ardaloedd eraill, goruchwylwyr, neu Oruchwylwyr Hyfforddi a Datblygu (TADS).

Fe barhawyd i gyfathrebu'n rheolaidd gyda chyfwelwyr a oedd eisoes ar y panel, gan gynnig cyfleoedd iddynt ymgymryd ag aseiniadau'r Arolwg Cenedlaethol a sicrhau eu hymwneud parhaus. Cafodd cynnydd ei fonitro'n wythnosol, gyda chymorth ychwanegol lle'r oedd y cynnydd islaw'r lefelau a ddisgwyliwyd.

Roedd nifer gwirioneddol y cyfwelwyr yn amrywio o un mis i'r llall gan ddibynnu ar anghenion penodol yr arolwg ar yr adeg honno, ond roedd gan yr asiantaethau 50 o gyfwelwyr (Verian) a 25 o gyfwelwyr (Beaufort) ar eu priod baneli yn ystod ychydig fisoedd olaf y gwaith maes.

Mae Tabl 4.1 isod yn dangos maint y paneli fesul asiantaeth bob mis a nifer y diwrnodau a weithiwyd bob mis.

Tabl 4.1: Maint y paneli fesul mis

	Panel Verian	Panel Beaufort	Diwrnodau a weithiwyd
Ebrill 2024	42	25	118
Mai 2024	42	25	184
Mehefin 2024	41	25	186
Gorffennaf 2024	41	25	302
Awst 2024	42	25	279
Medi 2024	42	25	280
Hyd 2024	42	25	296
Tach 2024	42	23	293
Rhag 2024	54	23	258
Ion 2025	51	25	370
Chwe 2025	59	25	345
Maw 2025	54	25	237

Roedd gan Beaufort bedwar cyfwelydd Cymraeg a oedd ar gael trwy gydol y gwaith maes i gynnal cyfweiliadau Cymraeg, naill ai dros y ffôn neu yn y cnawd.

4.2. Trosolwg o'r sesiynau briffio cyfwelwyr

Roedd rhaid i'r holl gyfwelwyr fod yn bresennol mewn sesiwn briffio cyfwelwyr cyn eu bod yn gallu gweithio ar yr astudiaeth. Yn dilyn y sesiwn friffio hon, gofynnwyd i'r cyfwelwyr gynnal nifer o gyfweiliadau ymarfer cyn bod yn bresennol mewn ail sesiwn i ymdrin ag unrhyw ymholiadau a oedd ganddynt o hyd.

Roedd y sesiynau briffio'n gymysgedd o sesiynau yn y cnawd ac ar-lein (Teams) i sicrhau y gallai'r cyfwelwyr gael eu briffio yn y ffordd fwyaf effeithlon posibl.

Cafodd y lleoliadau briffio ar gyfer y sesiynau yn y cnawd eu dethol yn seiliedig ar yr aseiniadau a ddetholwyd a lleoliadau'r cyfwelwyr. Ar y cyfan, cynhaliodd Verian bum sesiwn friffio yn y cnawd (pedair yng Nghaerdydd ac un yn Wrecsam), a ategwyd gan

wyth sesiwn friffio ar-lein. Yn ystod mis Mawrth 2024, cynhaliwyd dwy sesiwn friffio yng Nghaerdydd, tra bo un sesiwn friffio wedi cael ei chynnal yn Wrecsam. Roedd hi'n ofynnol cynnal sesiynau briffio wyneb-yn-wyneb pellach yng Nghaerdydd yn ystod mis Ebrill a mis Mehefin 2024. Cynhaliwyd sesiynau briffio ar-lein yn ôl yr angen, er enghraifft lle'r oedd angen briffio nifer fach o gyfwelwyr yn ystod haf 2024 ac eto ar draws mis Rhagfyr 2024 a mis Ionawr 2025 i adlewyrchu ehangiad panel wyneb-yn-wyneb Verian yn ychydig fisoedd olaf yr arolwg. Cynhaliodd Beaufort dair sesiwn friffio yng Nghaerdydd ym mis Mawrth, mis Mehefin a mis Awst 2024.

Roedd cynnwys y sesiynau briffio ar y cyd yn cynnwys:

- cefndir a chyflwyniad i'r astudiaeth
- llinell amser a phroses y gwaith maes
- deunyddiau'r arolwg
- gofynion ar gyfer galwadau a thargedau o ran cyfraddau ymateb ar gyfer cyfwelwyr
- sut i ymdrin â chyndynrwydd i gyfranogi
- cynnwys yr holiadur
- gweinyddu'r gwaith maes

Ochr yn ochr â'r sesiwn friffio ei hun, darparwyd ystod o ddeunyddiau cymorth ychwanegol ar gyfer cyfwelwyr – copi caled o'r sleidiau briffio, llawlyfr cyfwelydd a dogfen gefndir am yr holiadur. Roedd y ddogfen olaf yn rhoi trosolwg i'r cyfwelwyr o bob cwestiwn yn yr arolwg i ategu'r sesiwn friffio a gyflwynwyd dros ddiwrnod llawn, ac i ddarparu cyd-destun ychwanegol rhag ofn y byddai unrhyw gwestiynau penodol yn cael eu codi gan ymatebwyr yn ystod y cyfweliad.

4.3. Trosolwg ar oruchwyliaeth a rheolaeth ansawdd

Cafodd isafswm o 10% o'r holl gyfweliadau a gynhaliwyd eu dilysu, yn unol â safonau'r diwydiant. Ar gyfer yr Arolwg Cenedlaethol, cafodd y prosesau ôl-wirio ar gyfer cyfweliadau a gynhaliwyd wyneb yn wyneb eu cymhwyso ar gyfer cyfweliadau dros y ffôn hefyd.

Lle cwblhawyd cyfweliadau dros y ffôn, fe wrandawodd y tîm ansawdd ar hap-sampl o 10% o'r cyfweliadau a recordiwyd trwy'r system CATI (pan oedd cydsyniad i recordio wedi cael ei roi) i sicrhau bod gweithdrefnau wedi cael eu dilyn yn gywir ac fe gafodd canlyniadau eu bwydo'n ôl i gyfwelwyr.

Cafodd cyfweliadau wyneb-yn-wyneb eu dilysu dros y ffôn gyda dilyswyr hyfforddedig. Lle'r oedd yn bosibl, fe wnaed gwiriadau dilysu o fewn pythefnos i gynnal y cyfweliad.

Os nad oedd hi'n bosibl cysylltu â'r ymatebydd dros y ffôn, fe roddwyd cynnig ar gysylltu â hwy trwy'r post neu yn y cnawd. Roedd gwiriadau dilysu'n cynnwys ail-ofyn cwestiynau o wahanol rannau o'r cyfweiliad i wirio atebion a gofyn cwestiynau am sut y gwnaeth y cyfwelydd weinyddu'r arolwg i sicrhau bod gweithdrefnau wedi cael eu dilyn yn gywir.

Lle gwnaeth y broses ddilysu adnabod unrhyw faterion o ran perfformiad, fe adolygwyd y rhain ac fe ymdriniwyd â hwy gyda'r cyfwelydd. Y cam cyntaf oedd ymchwilio'n drylwyr i'r mater a heb ragfarn, gan gofio difrifoldeb y mater. Cafodd yr holl benderfyniadau eu hadolygu gan yr Adran Ansawdd a Rheolwyr Cyfwelwyr, cyn eu cymeradwyo gan yr Uwch Reolwyr. Cynigiwyd hyfforddiant a chymorth ychwanegol os oedd angen ac fe wnaed gwaith pellach i fonitro gwaith y cyfwelydd.

Yn ogystal â dilysu ar lefel cyfresi, roedd cyfwelwyr yn cael (fel isafswm) galwadau perfformiad wythnosol ac yn cael eu goruchwyllo yn y maes, gyda'r holl gyfwelwyr yn cael cwmni goruchwyllydd yn y maes fel rhan o'u proses rheoli perfformiad reolaidd (goruchwyllydd yn mynd yn gwmni i bob cyfwelydd o leiaf unwaith). Pan oedd yn mynd yn gwmni iddynt, roedd y goruchwyllydd yn arsylwi ar bob agwedd ac yn asesu pob agwedd ar waith y cyfwelydd, gan gynnwys eu strategaeth gysylltu, eu techneg ar garreg y drws, y modd yr oeddent yn gweinyddu'r cyfweiliad, a'u hymlyniad wrth safonau rheolaeth ansawdd. Roedd y goruchwyllydd yn coetsio ac yn rhoi cymorth ac yn adnabod unrhyw hyfforddiant a chymorth pellach yr oedd eu hangen ar gyfer gwaith maes. Roedd trefniadau goruchwyllo'n cael eu teilwra i ystyried anghenion ychwanegol yr astudiaeth, megis cwblhau CASI. Roedd y goruchwyllydd yn cwblhau ffurflen gyda'r cyfwelydd ar ôl mynd yn gwmni iddynt, a honno'n cael ei rhannu gyda'r cyfwelydd a rheolwr y cyfwelydd, a oedd yn gwneud gwaith dilynol o ran unrhyw gamau gweithredu a oedd yn ofynnol.

Fe wnaethom ymgorffori cyfraddau derbyn a chwblhau'r arolwg ar-lein fel dangosydd perfformiad allweddol ffurfiol ar gyfer cyfwelwyr a oedd yn gweithio ar yr Arolwg Cenedlaethol a monitro cyfraddau derbyn a chwblhau fesul cyfwelydd unigol. Roeddem yn gwneud gwaith dilynol os oedd gan unrhyw gyfwelwyr gyfraddau derbyn/cwblhau a oedd yn sylweddol is na'r cyfartaledd ac, os oedd angen, roeddent yn cael hyfforddiant neu oruchwyliaeth ychwanegol.

4.4. Dyddiadau, rheoli a gweithdrefnau'r gwaith maes

Dechreuodd y gwaith maes tuag at ddiwedd mis Mawrth 2024 ac fe barodd tan 31 Mawrth 2025⁹.

⁹ Cafodd ymatebwyr a oedd yn cwblhau'r adran hunan-gwblhau (CAWI) estyniad hyd at a chan gynnwys 6 Ebrill 2025.

Fe anfonwyd llythyr gwahodd at gyfeiriadau a oedd yn cael eu samplu 14 diwrnod cyn dechrau pob cyfnod gwaith maes misol¹⁰. Ar y llythyr hwn, roedd ymatebwyr yn cael eu hysgogi i ddilyn dolen a oedd yn mynd â hwy at [dudalen lanio](#) ar wefan Llywodraeth Cymru. Roedd cyfeiriadau URL ar wahân yn cael eu cynnwys yn y llythyr i'w cyfeirio at naill ai tudalen lanio Saesneg neu dudalen lanio Gymraeg. O'r fan honno gallent glicio ar ddolen arall a oedd yn eu hailgyfeirio at borth ar-lein 'optio-i-mewn' yr arolwg. Hefyd, roedd y llythyrau'n cynnwys cod QR iaith-benodol a oedd yn mynd ag ymatebwyr yn uniongyrchol at yr un dudalen lanio ar wefan Llywodraeth Cymru â'r URL.

Unwaith yr oedd ymatebwyr wedi cael eu hailgyfeirio at y porth ar-lein 'optio-i-mewn', gofynnid iddynt roi'r cod mynediad rhifiadol 8 digid unigryw a ddarparwyd yn eu llythyr gwahodd i mewn, cyn y gofynnid iddynt ddarparu manylion cyswllt, gan gynnwys o leiaf un rhif ffôn.

Yn ogystal â bod aelwydydd yn optio i mewn i'r arolwg trwy ddarparu eu rhif ffôn, roedd y cyfeiriadau a oedd yn cael eu samplu yn cael eu "tele-baru" hefyd yn erbyn ffynonellau a oedd ar gael yn fasnachol er mwyn adnabod rhifau ffôn ychwanegol y gellid eu defnyddio o bosibl i gysylltu ag is-set o gyfeiriadau.

I ddechrau roedd cyfwelwyr yn defnyddio'r rhifau a ddarparwyd trwy'r porth 'optio-i-mewn' i gychwyn eu haseiniadau. Roedd dau lythyr atgoffa gwahanol yn cael eu hanfon i gyfeiriadau nad oeddent wedi optio i mewn ar y porth ar-lein (Llythyr Atgoffa 1) neu na wnaethant ddarparu rhif ffôn a oedd yn gweithio, neu lle nad oedd cyfwelwyr yn gallu sefydlu cyswllt am ryw reswm arall (Llythyr Atgoffa 2). Roedd Llythyr Atgoffa 2 yn hysbysu cyfranogwyr nad oedd y cyfwelydd wedi gallu cysylltu â hwy ac yn gofyn iddynt gysylltu â llinell gymorth y swyddfa (dros y ffôn neu drwy'r e-bost) i drefnu amser ar gyfer cyfweiliad, neu i ofyn unrhyw gwestiynau.

Roedd gan gyfwelwyr ofynion penodol ar gyfer eu galwadau wrth geisio cysylltu ag ymatebwyr. Gofynnid iddynt ddechrau gweithio ar eu haseiniadau cyn gynted â phosibl, h.y. cyn gynted ag yr oeddent yn cael manylion cyswllt ar gyfer cyfeiriadau yn eu haseiniad. Roedd hi'n ofynnol i gyfwelwyr wneud o leiaf 12 galwad ffôn i'r rhifau optio-i-mewn a ddarparwyd ym mhob cyfeiriad a oedd yn cael ei samplu, cyn y gallai cyfeiriad 'optio i mewn' gael ei ddosbarthu fel cyfeiriad lle na chafwyd cyswllt ar y cam cyfweld dros y ffôn. I gyfrif tuag at y gofyniad o ran yr isafswm, roedd angen i'r galwadau hyn fod ar ddiwrnodau gwahanol a chwmpasu cyfnod o bedair wythnos fel bod modd cysylltu ag aelwydydd a oedd i ffwrdd dros dro. Roedd angen i alwadau fod ar draws ystod o ddiwrnodau (yn ystod yr wythnos ac ar benwythnosau) ac adegau o'r dydd, h.y. roedd angen i 2 o leiaf o'r galwadau hyn fod gyda'r nos (ar ôl 6pm) yn ystod yr wythnos neu ar y penwythnos. Os oedd peiriant ateb yn cael ei gyrraedd ar alwadau penodol, gofynnid i gyfwelwyr adael neges wedi'i sgrïptio i roi gwybod i'r ymatebydd

¹⁰ These were sent out more than 14 days in advance for January, partly to try to counter the slower postal delivery time at this time of year.

eu bod wedi ceisio cysylltu. Roedd cyfwelwyr yn cael eu hannog i gysylltu â'r sampl CATI wedi'i thele-baru dim ond ar ddechrau wythnos 3 fel y gallent flaenoriaethu'r rhifau optio-i-mewn a oedd yn debygol o fod yn fwy cynhyrchiol.

O wythnos 5 y gwaith maes, gallai cyfwelwyr ddechrau cysylltu ag unrhyw gyfeiriadau yn eu sampl a oedd yn gymwys ar gyfer gwaith maes wyneb-yn-wyneb (gweler [adran 2.7](#) am ragor o fanylion). Roedd hyn yn golygu, er bod cyfanswm hyd y gwaith maes ar gyfer pob mis o sampl a ddyroddwyd yn para 12 wythnos, mai dim ond yn ystod 8 wythnos olaf pob cyfnod o waith maes yr oedd gwaith maes wyneb-yn-wyneb yn cael ei wneud.

Fodd bynnag, cytunwyd y byddai'r cyfnod gwaith maes ar gyfer Ionawr-Mawrth 2025 yn cael ei addasu o'i gymharu â misoedd cynharach er mwyn sicrhau y gellid gweithio'r sampl honno'n llawn cyn dyddiad terfyn y gwaith maes ar ddiwedd mis Mawrth 2025. I helpu i hwyluso hyn, daethpwyd â dyddiad dechrau gwaith maes Chwefror a Mawrth ymlaen i ddiwedd mis Ionawr ac fe wnaeth y ddau fis redeg ochr yn ochr â'i gilydd yn ystod yr amser hwn. Dechreuodd gwaith maes CATI optio-i-mewn ar 21 Ionawr 2025, gyda gwaith maes CATI tele-baru yn dechrau ar 4 Chwefror 2025 a gwaith maes CAPI yn dechrau ychydig wythnosau'n ddiweddarach. Gan hynny, fe barodd gwaith maes ar gyfer y ddau fis hyn oddeutu 10 wythnos ar y cyfan, yn hytrach na'r 12 wythnos lawn.

Cafodd gwaith maes ei reoli gan dîm o Reolwyr maes a oedd wedi'u neilltuo i'r gwaith. Roedd y Rheolwyr maes hyn yn monitro'r cynnydd yn rheolaidd. Roedd diweddariadau wythnosol ar waith maes yn cael eu hanfon at Lywodraeth Cymru, gan gynnwys crynodebau o'r cynnydd ym mhob un o'r dulliau gwahanol.

Roedd system rheoli dyddiadur yn cael ei defnyddio i dracio'r diwrnodau y cytunwyd arnynt, a honno'n cael ei diweddarau'n rheolaidd gan Dîm Prosiect y Gwaith Maes, gydag unrhyw ddiwrnodau a gollwyd oherwydd salwch, tywydd gwael ac ati yn cael eu bwcio yn ôl i mewn i'r system.

4.5. Dogfennau'r gwaith maes

Roedd y llythyrau rhag blaen cychwynnol, ynghyd â'r daflen wybodaeth, yn cael eu hanfon 14 diwrnod cyn dyddiad dechrau gwaith maes y mis hwnnw o fewn y sampl (h.y. oddeutu 14 diwrnod cyn diwrnod cyntaf y mis y byddai'r sampl yn cael ei gweithio ynddo). Ym mis Ionawr, cafodd y rhain eu hanfon fwy nag 14 diwrnod rhag blaen i roi cyfrif am amseroedd danfon arafach yn y cyfnod hwnnw. Ar ôl hyn roedd llythyr cyflwyno cyfwelydd (Llythyr Atgoffa 1) yn cael ei anfon, a hynny'n ganolog gan Verian, i gyd-daro â dechrau cyfnod CATI'r mis perthnasol o fewn y sampl. Wedyn roedd ail lythyr atgoffa wedi'i dargedu'n cael ei anfon oddeutu 7 niwrnod wedi i'r gwaith maes CATI ddechrau. Roedd y llythyr atgoffa hwn yn cael ei anfon at unrhyw aelwyd nad oedd wedi darparu o leiaf un rhif ffôn trwy'r porth 'optio-i-mewn' neu drwy'r llinell gymorth. Roedd llythyr atgoffa wedi'i dargedu ar wahân yn cael ei anfon at unrhyw

aelwydydd a oedd wedi optio i mewn, ond lle nad oedd cyfwelwyr wedi llwyddo i gysylltu ar ôl rhyw wythnos bellach o waith maes (Llythyr Atgoffa 2).

Hefyd, roedd negeseuon e-bost yn atgoffa i gwblhau'r adran ar-lein yn cael eu hanfon ar dri achlysur ar wahân at y rhai a oedd wedi cwblhau'r adran ffôn (CATI) o'r cyfweiliad ond nad oeddent wedi cwblhau'r adran hunan-gwblhau (CAWI) eto. Roedd llythyr atgoffa ar gyfer yr adran hunan-gwblhau yn cael ei anfon ar un achlysur gyda hynny'n cyd-daro â'r drydedd neges e-bost yn atgoffa i gwblhau'r adran ar-lein.

Roedd cyfwelwyr yn cael pecyn gwaith maes cyfwelydd a oedd yn cynnwys y sleidiau o'r sesiynau briffio, dogfen ganllaw cyfwelydd, dogfen ganllaw ar yr holiadur a mapiau gwaith maes. Ochr yn ochr â hyn roeddent yn cael deunyddiau y gellid eu defnyddio ar garreg y drws neu yn ystod y cyfweiliad wyneb-yn-wyneb (CAPI) ei hun. Roedd y rhain yn cynnwys copi wedi'i lamineiddio o'r llythyr gwahodd, y daflen a'r llythyr atgoffa a oedd wedi cael eu hanfon at aelwydydd rhag blaen, a deunyddiau ychwanegol megis cardiau apwyntiadau a ffeithlun cysylltu data gyda thestun a oedd yn cyd-fynd ag ef. Ceir rhestr o'r holl ddeunyddiau a ddefnyddiwyd yn **Nhabl 4.2**, ac fe geir copïau yn [Atodiad C](#).

Roedd yr holl ddogfennau ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg.

Tabl 4.2: Disgrifiad o ddeunyddiau'r arolwg

Dogfen	Disgrifiad
Llythyr rhag blaen	• Yn cael ei anfon at yr holl gyfeiriadau a oedd yn cael eu samplu. • Yn hysbysu ymatebwyr am yr astudiaeth ac yn egluro pam eu bod wedi cael eu gwahodd i gymryd rhan.
Taflen yn egluro'r diben	• Yn cael ei hanfon ochr yn ochr â'r llythyr rhag blaen. • Roedd yn cynnwys rhagor o wybodaeth am yr astudiaeth i ategu'r llythyr rhag blaen.
Llythyr cyflwyno cyfwelydd (Llythyr Atgoffa 1)	• Yn cael ei anfon yn ganolog i gyd-daro â dechrau'r cyfnod CATI. • Roedd hwn yn annog yr aelwyd i ddarparu o leiaf un rhif ffôn trwy'r porth optio-i-mewn neu drwy'r llinell gymorth.
Cerdyn wedi galw heddiw	• Yn cael ei adael yn y cyfeiriad yn ystod ymweliadau gwaith maes cyfwelwyr os nad oedd unrhyw un ar gael. • Roedd y Cyfwelydd yn ysgrifennu eu henw, rhif ffôn a dyddiad yr ymweliad ar y cerdyn.
Taflen llinell gymorth	• Roedd hon ar gael i'w rhoi i'r rhai nad oeddent yn defnyddio'r rhyngwyd. • Roedd yn darparu manylion cyswllt llinell gymorth ar gyfer yr ymatebwyr hyn.
Cerdyn apwyntiad	• I gyfwelwyr ysgrifennu dyddiad/amser apwyntiad a'i roi i ymatebwyr. Roedd hefyd yn cynnwys lleoedd gwag ar gyfer lleoliad y cyfweliad, ac enw'r cyfwelydd.
Llythyr atgoffa (2)	• Yn cael ei anfon allan yn ganolog gan y swyddfa. • Roedd y llythyr hwn yn cael ei anfon at achosion lle na wnaed cyswllt (dros y ffôn).
Llythyr argyhoeddi	• Lle cafodd y cyfwelydd wrthodiad ar garreg y drws heb allu egluro'r arolwg yn iawn, gallai rheolwyr maes drefnu bod y llythyr hwn yn cael ei anfon.
E-bost a llythyr yn atgoffa i gwblhau'r adran ar-lein	• Yn cael eu hanfon at ymatebwyr nad oeddent wedi cwblhau adran ar-lein yr arolwg eto.
Ffeithlun a gwybodaeth cysylltu data	• Yn darparu eglurhad o'r broses cysylltu data ar gyfer ymatebwyr. Roedd yn cael ei ddefnyddio yn ystod ymweliadau â'r cartref lle'r oedd angen
Amlen	• Yn cael ei defnyddio i bostio llythyrau a thaflenni.

	• Roedd yn cynnwys logo Llywodraeth Cymru a Verian a thestun dwyieithog (Cymraeg a Saesneg).
--	--

4.6. Tudalennau gwe am yr arolwg

Yn wreiddiol fe ofynnodd Llywodraeth Cymru i Verian adeiladu gwefan unigol i letya'r holl dudalennau gwe a oedd wedi'u bwriadu ar gyfer Arolwg Cenedlaethol 2024-25. Er bod enw parth wedi cael ei brynu a bod fersiwn o'r wefan a oedd yn gweithio wedi cael ei datblygu, fe benderfynodd Llywodraeth Cymru'n ddiweddarach mai hi fyddai'n lletya seilwaith y wefan.

Gwefan Llywodraeth Cymru felly wnaeth letya'r mwyafrif o'r wybodaeth am yr arolwg a oedd yn benodol ar gyfer ymatebwyr. Roedd cyfeiriad y wefan wedi'i gynnwys ar ddeunyddiau'r arolwg hefyd, i dawelu meddwl ymatebwyr ynghylch dilyswydd yr arolwg a hefyd i gynnig ffynhonnell wybodaeth ychwanegol i ymatebwyr.

Dim ond y porth 'optio-i-mewn' ar-lein a'r arolwg hunan-gwblhau ar-lein a letwyd gan Verian. Roedd y tudalennau gwe ar gyfer y rhain yn cynnwys dolenni a oedd yn ailgyfeirio pobl yn ôl at wefan Llywodraeth Cymru i gael rhagor o wybodaeth am yr arolwg.

Cafodd set ar wahân o dudalennau gwe a oedd wedi'u bwriadu ar gyfer defnyddwyr yr arolwg yn hytrach nag ymatebwyr ei lletya gan Lywodraeth Cymru hefyd. Roedd hyn yn cynnwys gwybodaeth gefndir am yr arolwg, disgrifiad o ddull yr arolwg a'r hyn yr oedd yr holiadur yn ymdrin ag ef, newyddion diweddaraf a rhagor o wybodaeth am gysylltu data. Roedd copïau electronig o ddeunyddiau'r arolwg wedi'u cynnwys ar y wefan hefyd.

Roedd tudalennau gwe ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg.

4.7. Cyfweiliadau yn Gymraeg ac mewn ieithoedd eraill

Roedd yr holl ddeunyddiau ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg. Gallai cyfranogwyr optio i mewn i'r arolwg dros y ffôn trwy borth iaith ddeuol y gellid ei newid yn rhwydd rhwng y ddwy iaith. Roedd yr opsiwn diofyn yn dibynnu pa un a oeddent yn mewngofnodi trwy'r URL ar fersiwn Gymraeg ynteu fersiwn Saesneg y llythyrau gwahodd ac atgoffa.

Roedd y llythyrau Gymraeg a Saesneg a'r daflen yn darparu rhif rhadffôn ar gyfer llinell gymorth yr arolwg, er bod tri rhif gwahanol wedi cael eu defnyddio i gyd. Roedd manylion y llinell gymorth wedi'u cynnwys ar dudalennau gwe Verian hefyd. Roedd y llinell gymorth ar agor o ddydd Llun i ddydd Gwener rhwng 9am a 7pm a rhwng 9am a chanol dydd ar ddydd Sadwrn.

Roedd fersiwn Saesneg y llythyrau a'r taflenni'n cynnwys y rhif ar gyfer naill ai llinell gymorth Verian neu linell gymorth Beaufort, gan ddibynnu pa asiantaeth oedd i fod i gyfweild yn y cyfeiriad hwnnw. Fodd bynnag, roedd fersiwn Gymraeg y llythyrau/taflenni'n cynnwys un rhif llinell gymorth, gyda'r holl geisiadau i'r llinell gymorth Gymraeg yn cael eu cyfeirio at Beaufort. Os oedd unrhyw un o'r galwadau ffôn yn ymwneud ag un o gyfresi (cyfeiriadau) Verian roedd y diweddariad yn cael ei drosglwyddo ar unwaith i Verian, neu roedd y ddwy asiantaeth yn trefnu bod y gyfres yn cael ei hailddyrannu i Beaufort mewn achosion lle'r oedd yr ymatebydd yn ffonio i drefnu cyfwelydd Cymraeg.

Cafodd cyfranogwyr gynnig y cyfle i gwblhau'r arolwg yn Gymraeg neu yn Saesneg, neu mewn iaith arall, gyda'r holl gyfweiliadau Cymraeg yn cael eu cynnal gan gyfweilwyr Cymraeg o Beaufort Research. Roedd yr iaith gwblhau (Cymraeg neu Saesneg) yn cael ei dewis gan yr ymatebydd naill ai cyn yr arolwg, os oeddent yn cysylltu â llinell gymorth yr arolwg er enghraifft, neu yn ystod y cyflwyniad i'r arolwg.

Cynhaliwyd cyfanswm o 69 o gyfweiliadau (1.2%) yn Gymraeg. Cynhaliwyd 65 o gyfweiliadau dros y ffôn yn Gymraeg, tra bo 4 cyfweiliad arall yn y cnaud wedi cael eu cynnal yn Gymraeg (**Tablau 4.3 a 4.4**).

Lle gofynnwyd am iaith arall, gofynnwyd i'r cyfranogwyr a oedd angen cyfieithydd allanol, ynteu a allai rhywun yr oedd yr ymatebydd yn ei adnabod gyfieithu'r arolwg ar eu rhan (er enghraifft, aelod arall o'r aelwyd neu ffrind). Lle gofynnwyd i aelod o'r aelwyd gyfieithu'r arolwg, roedd y sgript yn sgipio'r holl gwestiynau/modiwlau sensitif, er enghraifft cyfeiriadedd rhywiol, yn awtomatig.

Roedd un achos lle gwnaeth rhywun yr oedd yr ymatebydd yn ei adnabod gyfieithu'r arolwg ar eu rhan.

Tabl 4.3: iaith cyfweiliadau - ffôn

iaith	Mynychder	Canran (%)
Saesneg	3,883	98.3%
Cymraeg	65	1.6%
Arall	1	0.1%
Cyfanswm	3,949	100.0%

Tabl 4.4: iaith y cyfweiliad – wyneb yn wyneb

iaith	Mynychder	Canran (%)
Saesneg	1,973	99.8%
Cymraeg	4	0.2%

Cyfanswm	1,977	100.0%
-----------------	--------------	---------------

4.8. Cyfweiliadau dros y ffôn ac wyneb-yn-wyneb gyda chymorth

Gofynnwyd i'r cyfwelwyr wirio hefyd a oedd ar y cyfranogwr angen help gan rywun arall (er enghraifft, aelod arall o'r aelwyd neu ffrind) i gwblhau'r cyfweiliad oherwydd, er enghraifft, nam ar eu lleferydd neu eu clyw.

Lle'r oedd angen cymorth, gallai'r cyfwelydd barhau â'r cyfweiliad os oedd y sawl a oedd yn rhoi cymorth ar gael ar adeg yr apwyntiad cychwynnol neu fe allai drefnu apwyntiad diweddarach os nad oedd yr unigolyn dan sylw ar gael. Cynhaliwyd un ar bymtheg ar hugain (36) o gyfweiliadau gyda chymorth dros y ffôn, tra bo 26 cyfweiliad arall gyda chymorth wedi cael eu cynnal yn y cnawd.

4.9. Y broses o gysylltu mewn cyfeiriad yn y sampl

Roedd y broses gychwynnol ar gyfer cysylltu ag aelwydydd yn amrywio gan ddibynnu pa un a oedd yr aelwyd wedi darparu rhif ffôn trwy optio i mewn ynteu wedi cael ei hadnabod fel un â 'phariad' ffôn posibl yn ystod yr ymarfer tele-baru cychwynnol.

Fe drefnwyd fod unrhyw rifau tele-baru ar gael i gyfwelwyr ar ddechrau trydedd wythnos y gwaith maes CATI. Fe wnaeth hyn ganiatáu ffenestr o ddwy wythnos ar gyfer gwaith maes tele-baru ochr yn ochr â'r gwaith maes optio-i-mewn (pedair wythnos) cyn i'r rhan wyneb-yn-wyneb (CAPI) ddechrau.

Lle na ddarparwyd rhif ffôn optio-i-mewn (a bod y cyfeiriad heb gael ei dele-baru), fe geisiwyd sefydlu cyswllt cychwynnol ar garreg y drws ar gyfer cyfeiriadau a ddyrannwyd i'r dyluniad dau-gam. Roedd cyfwelwyr yn gallu defnyddio copi o'r llythyr rhag blaen a'r daflen fel proc i'r cof os nad oedd yr aelod o'r aelwyd yn cofio cael unrhyw lythyr(au) o'r fath.

Roedd y sgriptiau cyflwyno wedi'u teilwra i adlewyrchu'r gwahanol bwyntiau cyswllt mynediad (h.y. pa un a oedd y cyswllt cyntaf dros y ffôn ynteu yn y cnawd). Darparwyd testun ychwanegol i gyfwelwyr ar gyfer y rhai y cysylltwyd â hwy trwy dele-baru er mwyn helpu i egluro sut y casglwyd eu rhif.

Cyn cynnal y cyfweiliad, roedd hi'n bwysig bod cyfwelwyr yn cadarnhau yn gyntaf beth oedd cyfeiriad yr ymatebydd, a'u bod yn gymwys i gymryd rhan. Wrth gyfweld dros y ffôn, byddai cyfwelwyr yn cadarnhau hyn gyda'r ymatebydd. Wrth gyfweld wyneb yn wyneb, gallai cyfwelwyr gadarnhau hyn eu hunain.

Unwaith yr oedd y cyfeiriad wedi cael ei gadarnhau fel y prif fan preswyllo, roedd angen dethol un oedolyn (16+) ym mhob aelwyd ar gyfer cyfweiliad. Roedd yr oedolyn yn cael ei ddethol ar hap gan algorithm o fewn y sgript ar ôl i'r cyfwelydd gasglu enwau'r holl

oedolion 16 oed neu drosodd yn yr aelwyd a chadarnhau hyn gyda'r ymatebydd. Lle nad oedd ond un oedolyn 16 oed neu drosodd yn byw mewn cyfeiriad, nid oedd hi'n ofynnol dethol unigolyn. Lle'r oedd ymatebydd a ddetholwyd yn 16 neu 17 oed, roedd angen i'r cyfwelydd gael caniatâd rhiant cyn cynnal cyfweliad a chofnodi yn y sgript beth oedd enw a pherthynas y sawl a oedd yn rhoi caniatâd. Ar y cyfan, fe wnaeth 40 o ymatebwyr 16 neu 17 oed gwblhau cyfweliad.

Unwaith yr oedd yr unigolyn wedi cael eu dethol, roedd y cyfwelydd yn cadarnhau dewis iaith yr ymatebydd ar gyfer y cyfweliad, yn ogystal â gwirio a oedd arnynt angen unrhyw fath o gymorth yn ystod y cyfweliad. Roedd hyn yn cael ei gofnodi ar ddechrau'r holiadur.

4.10. Arolwg hunan-gwblhau (CAWI/CASI)

Ar ddiwedd y cyfweliad dros y ffôn roedd unrhyw un a oedd wedi cadarnhau'n flaenorol eu bod yn defnyddio'r rhynggrwyd (IntPerUse) neu a oedd â dyfais a oedd yn cysylltu â'r rhynggrwyd (IntPersUseCheck) yn cael cais i gwblhau'r adran ar-lein ar adeg a oedd yn gyfleus iddynt hwy.

Lle nad oedd cyfranogwyr yn defnyddio'r rhynggrwyd, lle nad oedd ganddynt ddyfais wedi'i chysylltu â'r rhynggrwyd, neu lle na allent gwblhau'r adran hunan-gwblhau eu hunain, roedd cyfwelwyr yn gallu ei chwblhau ar eu rhan. Gellid gwneud hyn naill ai ar yr un alwad neu rywbryd wedi hynny.

Roedd yr holl gyfranogwyr yn gallu gwrthod yr adran ar-lein, er eu bod yn cael eu hatgoffa y byddai gwneud hynny'n golygu na fyddent yn gymwys i gael y daleb a oedd yn cael ei chynnig fel cymhelliad.

Roedd cyfwelwyr a oedd yn cynnal cyfweliadau wyneb yn wyneb (CAPI) yn rhoi eu dyfais i'r ymatebydd i gwblhau adran hunan-gwblhau'r arolwg eu hunain (CASI). Fodd bynnag, eto, gallai hon gael ei chwblhau gan y cyfwelydd os oedd yr ymatebydd yn gofyn am hyn.

4.11. Crynodeb o ddeilliannau'r sampl

Ymhlith yr holl gyfeiriadau a oedd yn gymwys ar gyfer ymweliadau wyneb-yn-wyneb, canfuwyd ar y cam dros y ffôn neu wyneb-yn-wyneb fod 9.6% yn anghymwys; defnyddir y gyfradd wirioneddol hon wedi'i rhannu ar lefel awdurdodau lleol fel dirprwy i amcangyfrif cyfradd gymhwysra o 9.9% ar gyfer y sampl gyfan (felly fe amcangyfrifwyd fod 90.1% o'r 35,186 o gyfeiriadau a ddyroddwyd = 31,703 yn gymwys).

Roedd y gyfradd ymateb ar draws yr holl gyfeiriadau ar y cam dros y ffôn (boed yn gyfeiriadau optio-i-mewn neu'n gyfeiriadau tele-baru) yn 12.5%: 3,949 o gyfweliadau wedi'u cyflawni o blith 31,703 o gyfeiriadau cymwys.

O'r 27,754 o gyfeiriadau cymwys a oedd yn weddill lle na sicrhawyd cyfweliad dros y ffôn, roedd 12,807 (46.1%) wedi cael eu dyrannu rhag blaen i gael ymweliadau wyneb-yn-wyneb.¹¹ Fe wnaeth cyfweliadau wyneb-yn-wyneb a gynhaliwyd yn y cyfeiriadau hyn gynyddu'r gyfradd ymateb ar y cyfan 6.2 pwynt canran: 1,977 o gyfweliadau a gyflawnwyd wedi'i rannu â 31,703. Felly roedd y gyfradd ymateb ar y cyfan yn 12.5% (ar y cam dros y ffôn) + 6.2% (ar y cam wyneb-yn-wyneb) = **18.7%**.

I gael rhestr lawn o'r cod deilliannau a aseiniwyd, gweler [Atodiad G](#).

Mae'n bosibl y gallai'r gyfradd ymateb is o'i gymharu â blynyddoedd blaenorol effeithio ar gywirdeb yr amcangyfrifon a gynhyrchwyd, er ei bod yn werth nodi nad yw lefel y newid mewn amcangyfrifon o'i gymharu â 2022-23 yn uwch o gwbl nag a fyddai i'w ddisgwyl yn nodweddiadol rhwng blynyddoedd arolwg.

O'i gymharu â'r sampl a gyflawnwyd heb ei phwysoli yn 2022-23, mae sampl 2024-25 yn cynnwys nifer o wahaniaethau megis mwy o siaradwyr Cymraeg, llai o bobl 25-54 oed, mwy o bobl 75+ oed, mwy o bobl â chymwysterau lefel-uwch, llai o bobl heb unrhyw gymwysterau, llai o bobl sy'n gweithio, a mwy o bobl mewn ardaloedd gwledig.

O ran mathau o aelwydydd, roedd mwy o aelwydydd person sengl yn y sampl ar gyfer 2024-25, a llai o gyplau (gyda a heb blant). Roedd llai o bobl yn yr ardaloedd â'r incwm a chyflogaeth isaf, a mwy mewn ardaloedd lle mae gan bobl lefelau uwch o gymwysterau a sgiliau. Roedd gwasgariad llai gwastad o gyfweliadau ar draws y flwyddyn hefyd (er enghraifft, nifer cymesur is ym mis Chwefror a mis Mawrth) o'i gymharu â blynyddoedd blaenorol.

Cynhyrchwyd pwysiadau i ddod â'r sampl yn nes at y boblogaeth ehangach o ran oedran, rhyw, a maint awdurdod lleol, yn ogystal â gwneud iawn am amrywiad o'r targed yn niferoedd y cyfweliadau ym mhob bwrdd iechyd ym mhob chwarter. Mae'r pwysiad yn lleihau ond ni fydd yn dileu effeithiau gwahaniaethau yn y sampl a gyflawnwyd o'i gymharu â blynyddoedd blaenorol a chyda'r boblogaeth. Gweler [Adran 6](#) am ragor o wybodaeth am bwysoli.

¹¹ Dyrannwyd cyfanswm o 23,779 o achosion i fod yn gymwys ar gyfer ymweliadau wyneb-yn-wyneb ar y cam samplu

4.12. Dadansoddiad o'r deilliannau fesul dull

Mae Tabl 4.5 yn nodi'r cyfweiliadau a gyflawnwyd ar y cyfan a'r rhaniad fesul dull.

Tabl 4.5: Crynodeb o'r deilliannau terfynol

Deiliant	N	% o'r cyfeiriadau cymwys
Cyfanswm y cyfeiriadau a ddyroddwyd	35,186	
Cyfeiriadau cymwys (yn seiliedig ar gyfradd anghymhwysra amcangyfrifedig o 9.9%)	31,703	
Cyfeiriadau y cafwyd rhif ffôn ar eu cyfer	14,334	45.2%
Wedi cael rhif ffôn optio-i-mewn ¹²	6,542	20.6%
Wedi cael rhif ffôn tele-baru	7,665	24.2%
Cyfeiriadau a ddyrannwyd i ymweliad os na chyflawnwyd cyfweiliad dros y ffôn		
Dim cyfweiliad dros y ffôn wedi'i gyflawni	10,385	32.8%
Yr holl gyfweiliadau¹³	5,926	18.7%
Wedi'u cwblhau'n rhannol	64	0.2%
Anghymwys	2,396	7.6%
Diffyg cyswllt	4,055	12.8%
Deilliannau eraill, e.e. anghynhyrchiol	6,012	19.0%
Wedi gwrthod	6,111	19.3%
Cyfweiliadau dros y ffôn¹⁴	3,949	12.5%
Wedi'u cwblhau'n rhannol	53	0.2%
Anghymwys	1,124	3.5%
Diffyg cyswllt	1,746	5.5%
Deilliannau eraill, e.e. anghynhyrchiol	4,912	15.5%
Wedi gwrthod	2,893	9.1%
Cyfweiliadau dros y ffôn – rhifau optio-i-mewn	3,591	11.3%
Wedi'u cwblhau'n rhannol	44	0.1%
Anghymwys	163	0.5%
Diffyg cyswllt	341	1.1%
Deilliannau eraill, e.e. anghynhyrchiol	1,722	5.4%

¹² Lle'r oedd rhif optio-i-mewn ymatebydd a rhif tele-baru ar gael ar gyfer cyfeiriad, fe'i cyfrifir yma fel rhif optio-i-mewn.

¹³ Fe weithiwyd rhai achosion yn ystod gwaith maes dros y ffôn ac yn ystod gwaith maes wyneb-yn-wyneb gyda deiliant gwahanol. Gan hynny, ni ellir adio'r niferoedd hyn at ei gilydd i ddarparu niferoedd terfynol. Felly ceir rhai anghysonderau bychain rhwng ffigyrau ar gyfer "Yr holl gyfweiliadau" a swm "Cyfweiliadau dros y ffôn" a "Cyfweiliadau wyneb-yn-wyneb"

¹⁴ DS: ni wnaeth nifer fach o gyfweiliadau dros y ffôn darddu o rif optio-i-mewn na rhif tele-baru, e.e. gofynnwyd i gyfweilydd newid apwyntiad yn y cartref i fod yn gyfweiliad dros y ffôn.

Deilliant	N	% o'r cyfeiriadau cymwys
Wedi gwrthod ¹⁵	681	2.1%
Cyfweliadau dros y ffôn – rhifau tele-baru	332	1.0%
Wedi'u cwblhau'n rhannol	9	0.0%
Anghymwys	957	3.0%
Diffyg cyswllt	1,388	4.4%
Deilliannau eraill, e.e. anghynhyrchiol	3,080	9.7%
Wedi gwrthod	1,899	6.0%
Cyfweliadau wyneb-yn-wyneb¹⁶	1,977	6.2%
Wedi'u cwblhau'n rhannol	11	0.0%
Anghymwys	1,386	4.4%
Diffyg cyswllt	2,929	9.2%
Wedi gwrthod	3,343	10.5%
Anghynhyrchiol	2,418	7.6%
Wedi'u trosglwyddo i gyfweliad dros y ffôn	123	0.4%
Heb eu cychwyn	620	2.0%

¹⁵ Fe ysgogwyd hyn yn bennaf gan y ffaith bod y sawl a ddetholwyd i gymryd rhan yn wahanol i'r sawl a oedd wedi optio i mewn trwy ddarparu eu rhif ffôn.

¹⁶ Fel a grybwyllwyd yn flaenorol, dim ond is-set o 22,727 o achosion (64.6% o gyfanswm y sampl a ddyroddwyd) a farciwyd fel rhai a oedd yn gymwys i gael ymweliadau wyneb-yn-wyneb.

Tabl 4.6 Cam dros y ffôn fesul ALI

Awdurdod lleol	Pob un a ddyroddwyd	Yr holl rai yr amcangyfrifwyd eu bod yn gymwys¹⁷	Wedi'u cyflawni	% o'r holl gyfeiriadau cymwys	Wedi gwrthod, % o'r holl gyfeiriadau cymwys	Diffyg cyswllt, % o'r holl gyfeiriadau cymwys	% o'r targed blynyddol diwygiedig
Cyfanswm y cyfweliadau	35,186	31,685	3,949	12.5%	9.1% (2,893)	5.5% (1,746)	94.0% (4,200)
Blaenau Gwent	1,350	1,303	83	6.4%	6.7% (87)	4.9% (64)	74.1% (112)
Pen-y-bont ar Ogwr	1,334	1,254	153	12.2%	6.7% (84)	3.9% (49)	99.4% (154)
Caerffili	1,329	1,164	131	11.3%	10.3% (120)	7.4% (86)	87.9% (149)
Caerdydd	2,614	2,417	352	14.6%	7.3% (177)	6.3% (153)	98.6% (357)
Sir Gâr	1,430	1,257	175	13.9%	12.3% (154)	3% (38)	102.9% (170)
Ceredigion	1,436	1,270	178	14.0%	7.9% (100)	3.3% (42)	106.0% (168)
Conwy	1,402	1,241	179	14.4%	8.4% (104)	6% (74)	98.4% (182)
Sir Ddinbych	1,337	1,207	145	12.0%	5.2% (63)	5.6% (67)	95.4% (152)
Sir y Fflint	1,555	1,449	188	13.0%	9.1% (132)	6.8% (98)	95.4% (197)
Gwynedd	1,669	1,369	203	14.8%	11.7% (160)	5.3% (72)	101.5% (200)
Ynys Môn	1,572	1,276	150	11.8%	9.9% (126)	7.3% (93)	79.8% (188)
Merthyr Tudful	1,342	1,244	112	9.0%	13.7% (171)	6.8% (84)	77.8% (144)

¹⁷ Cymhwysra wedi'i amcangyfrif yma ar lefel ALL, a heb dalgrynnu wrth gyfrifo, felly mae'r cyfanswm ychydig yn wahanol i dabl 4.5

Sir Fynwy	1,337	1,277	197	15.4%	10.2% (130)	4.6% (59)	101.0% (195)
Castell-nedd Port Talbot	1,342	1,197	135	11.3%	8.9% (107)	6.1% (73)	94.4% (143)
Casnewydd	1,592	1,433	164	11.4%	8.3% (119)	8.8% (126)	86.8% (189)
Sir Benfro	1,493	1,298	174	13.4%	10.4% (135)	5% (65)	96.7% (180)
Powys	3,290	2,894	447	15.4%	10% (288)	2.9% (84)	108.8% (411)
Rhondda Cynon Taf	1,856	1,726	173	10.0%	9.6% (166)	7.4% (128)	83.2% (208)
Abertawe	1,876	1,731	209	12.1%	9.8% (169)	5% (86)	95.0% (220)
Torfaen	1,354	1266	122	9.6%	8.1% (102)	4.3% (55)	85.3% (143)
Bro Morgannwg	1,327	1256	156	12.4%	9.2% (115)	5.6% (70)	88.6% (176)
Wrecsam	1,345	1156	123	10.6%	7.3% (84)	6.9% (80)	75.9% (162)

Rhoddir sylw i ddeilliannau ar y cam wyneb-yn-wyneb yn Nhabl 4.7.

Tabl 4.7 Cam wyneb-yn-wyneb fesul ALI

Awdurdod lleol	Pob un a ddyroddwyd	Yr holl rai yr amcangyfrifwyd eu bod yn gymwys	Wedi'u cyflawni	% o'r holl gyfeiriadau cymwys	Wedi gwrthod, % o'r holl gyfeiriadau cymwys	Diffyg cyswllt, % o'r holl gyfeiriadau cymwys	% o'r targed blynyddol diwygiedig
Cyfanswm y cyfweiliadau	35,186	31,685	1,977	6.2%	10.6% (3,343)	9.2% (2,929)	86.0% (2,300)
Blaenau Gwent	1,350	1,303	100	7.7%	10.6% (138)	14.8% (193)	69.4% (144)

Pen-y-bont ar Ogwr	1,334	1,254	99	7.9%	13.6% (171)	7.5% (94)	97.1% (102)
Caerffili	1,329	1,164	74	6.4%	9.6% (112)	10.8% (126)	69.8% (106)
Dvillchap12	Newidyn deilliedig – Mae gan yr unigolyn Glefydau heintus
Dvillchap13	Newidyn deilliedig – Mae gan yr unigolyn Afiechyd y Gwaed ac organau cysylltiedig
Dvillchap14	Newidyn deilliedig – Mae gan yr unigolyn Anhwylderau'r croen
Dvillchap15	Newidyn deilliedig – Mae gan yr unigolyn Afiechyd arall
Dvillchap16	Newidyn deilliedig - Mae gan yr unigolyn Anhwylder annosbarthadwy
Dvlimill1	Newidyn deilliedig – Mae Canser (neoplasm) gan gynnwys lymphiau a systiau anfalaen (nad ydynt yn falaen) yn cyfyngu ar yr unigolyn
Dvlimill2	Newidyn deilliedig – Mae Diabetes g.g. hyperglycemia yn cyfyngu ar yr unigolyn
Dvlimill3	Newidyn deilliedig – Mae Anhwylder endocrinaidd/metabolaidd arall yn cyfyngu ar yr unigolyn
Dvlimill4	Newidyn deilliedig – Mae Afiechyd meddwl/gorbryder/iselder/nerfau yn cyfyngu ar yr unigolyn
Dvlimill5	Newidyn deilliedig – Mae anabledd dysgu'n cyfyngu ar yr unigolyn
Dvlimill6	Newidyn deilliedig – Mae epilepsi/ffitiau/confylsiynau'n cyfyngu ar yr unigolyn
Dvlimill7	Newidyn deilliedig – Mae'r Meigrin/curau pen yn cyfyngu ar yr unigolyn
Dvlimill8	Newidyn deilliedig – Mae Problemau eraill sy'n ymwneud â'r system nerfol yn cyfyngu ar yr unigolyn
Dvlimill9	Newidyn deilliedig – Mae Cataract/golwg gwael/dallineb yn cyfyngu ar yr unigolyn
Dvlimill10	Newidyn deilliedig – Mae Anhwylderau eraill sy'n ymwneud â'r llygaid yn cyfyngu ar yr unigolyn
Dvlimill11	Newidyn deilliedig – Mae Clyw gwael/byddardod yn cyfyngu ar yr unigolyn
Dvlimill12	Newidyn deilliedig – Mae Cloch Fach/synau yn y glust yn cyfyngu ar yr unigolyn
Dvlimill13	Newidyn deilliedig – Mae Clefyd Meniere/anhwylderau'r glust sy'n achosi problemau cydbwysedd yn cyfyngu ar yr unigolyn
Dvlimill14	Newidyn deilliedig – Mae Anhwylderau eraill sy'n ymwneud â'r glust yn cyfyngu ar yr unigolyn

Dvlimill15	Newidyn deilliedig – Mae Strôc/gwaedlif ymenyddol/thrombosis ymenyddol yn cyfyngu ar yr unigolyn
Dvlimill16	Newidyn deilliedig – Mae Trawiad ar y galon/angina yn cyfyngu ar yr unigolyn
Dvlimill17	Newidyn deilliedig – Mae Gorbwysedd/pwysedd gwaed uchel/pwysedd gwaed yn cyfyngu ar yr unigolyn
Dvlimill18	Newidyn deilliedig – Mae Problemau eraill sy'n ymwneud â'r galon yn cyfyngu ar yr unigolyn
Dvlimill19	Newidyn deilliedig – Mae'r Peils/lledewigwst yn cyfyngu ar yr unigolyn
Dvlimill20	Newidyn deilliedig – Mae Gwythiennau chwyddedig/fflebitis yn y coesau a'r traed yn cyfyngu ar yr unigolyn
Dvlimill21	Newidyn deilliedig – Mae Anhwylder gwythiennol/ embolig arall yn cyfyngu ar yr unigolyn
Dvlimill22	Newidyn deilliedig – Mae Bronchitis/emffysema yn cyfyngu ar yr unigolyn
Dvlimill23	Newidyn deilliedig – Mae Asthma yn cyfyngu ar yr unigolyn
Dvlimill24	Newidyn deilliedig – Mae Clefyd y Gwair yn cyfyngu ar yr unigolyn
Dvlimill25	Newidyn deilliedig – Mae Anhwylderau anadlol eraill yn cyfyngu ar yr unigolyn
Dvlimill26	Newidyn deilliedig – Mae Wlser yn y stumog/wlser/torgest abdomenol/torllengig yn cyfyngu ar yr unigolyn
Dvlimill27	Newidyn deilliedig – Mae Anhwylderau eraill sy'n ymwneud â'r system dreulio (stumog, afu, pancreas a.y.b.) yn cyfyngu ar yr unigolyn
Dvlimill28	Newidyn deilliedig – Mae anhwylderau'r ymysgaroedd/coluddyn/rectwm yn cyfyngu ar yr unigolyn
Dvlimill29	Newidyn deilliedig - Mae Anhwylderau'r dannedd/y geg/y tafod yn cyfyngu ar yr unigolyn
Dvlimill30	Newidyn deilliedig – Mae Anhwylderau'r arennau'n cyfyngu ar yr unigolyn
Dvlimill31	Newidyn deilliedig – Mae Haint y llwybr wrinol yn cyfyngu ar yr unigolyn
Dvlimill32	Newidyn deilliedig – Mae problemau eraill sy'n ymwneud â'r bledren/anymataliaeth yn cyfyngu ar yr unigolyn
Dvlimill33	Newidyn deilliedig – Mae Anhwylderau'r system atgennedlu'n cyfyngu ar yr unigolyn
Dvlimill34	Newidyn deilliedig – Mae Arthritis/crydcymalau/ffibrositis yn cyfyngu ar yr unigolyn
Dvlimill35	Newidyn deilliedig – Mae Problemau cefn/disg wedi llithro/asgwrn cefn/gwddf yn cyfyngu ar yr unigolyn
Dvlimill36	Newidyn deilliedig – Mae Problemau eraill sy'n ymwneud â'r esgyrn/cymalau/cyhyrau yn cyfyngu ar yr unigolyn
Dvlimill37	Newidyn deilliedig – Mae Clefyd heintus a pharasitig yn cyfyngu ar yr unigolyn
Dvlimill38	Newidyn deilliedig – Mae Anhwylderau'r gwaed ac organau ffurfio gwaed yn cyfyngu ar yr unigolyn
Dvlimill39	Newidyn deilliedig – Mae Anhwylderau'r croen yn cyfyngu ar yr unigolyn
Dvlimill40	Newidyn deilliedig – Mae Anhwylder arall yn cyfyngu ar yr unigolyn
Dvlimill41	Newidyn deilliedig – Mae Anhwylder annosbarthadwy yn cyfyngu ar yr unigolyn
Dvlimillchap1	Newidyn deilliedig – Mae Neoplasmau a thyfiannau anfalaen (1) yn cyfyngu ar yr unigolyn

Dvlimillchap2	Newidyn deilliedig – Mae Clefydau endocrinaidd a metabolaid (2-3) yn cyfyngu ar yr unigolyn
Dvlimillchap3	Newidyn deilliedig – Mae Anhwylderau meddyliol (4-5) yn cyfyngu ar yr unigolyn
Dvlimillchap4	Newidyn deilliedig – Mae Anhwylderau'r system nerfol (6-8) yn cyfyngu ar yr unigolyn
Dvlimillchap5	Newidyn deilliedig – Mae Anhwylderau'r llygaid (9-10) yn cyfyngu ar yr unigolyn
Dvlimillchap6	Newidyn deilliedig – Mae Anhwylderau'r glust (11-14) yn cyfyngu ar yr unigolyn
Dvlimillchap7	Newidyn deilliedig – Mae Anhwylderau'r galon a chylchrediad y gwaed (15-21) yn cyfyngu ar yr unigolyn
Dvlimillchap8	Newidyn deilliedig – Mae Anhwylderau'r system anadlol (22-25) yn cyfyngu ar yr unigolyn
Dvlimillchap9	Newidyn deilliedig – Mae Anhwylderau'r system dreulio (26-29) yn cyfyngu ar yr unigolyn
Dvlimillchap10	Newidyn deilliedig – Mae Anhwylderau'r system genhedlol-wrinol (30-33) yn cyfyngu ar yr unigolyn
Dvlimillchap11	Newidyn deilliedig – Mae Anhwylderau cyhyrsgerbydol (34-36) yn cyfyngu ar yr unigolyn
Dvlimillchap12	Newidyn deilliedig – Mae Clefydau heintus (37) yn cyfyngu ar yr unigolyn
Dvlimillchap13	Newidyn deilliedig – Mae Anhwylderau'r gwaed ac organau cysylltiedig (38) yn cyfyngu ar yr unigolyn
Dvlimillchap14	Newidyn deilliedig – Mae Anhwylderau'r croen (39) yn cyfyngu ar yr unigolyn
Dvlimillchap15	Newidyn deilliedig – Mae Anhwylder arall yn cyfyngu ar yr unigolyn
Dvlimillchap16	Newidyn deilliedig – Mae Anhwylder annosbarthadwy yn cyfyngu ar yr unigolyn
DvCvfrtpor2	Newidyn deilliedig – Cyfanswm dognau o ffrwythau
DvCvvegpor2	Newidyn deilliedig – Cyfanswm dognau o lysiau (g.g. salad)
DvCvporfv2	Newidyn deilliedig – Cyfanswm dognau o ffrwythau a llysiau
DvCvfv5aday2	Newidyn deilliedig – Nifer y dognau o ffrwythau a llysiau a fwytawyd ddoe
DvCvfv52	Newidyn deilliedig – Wedi bwyta 5+ o ffrwythau neu lysiau y diwrnod blaenorol - deuaidd
Dvwalkweek	Newidyn deilliedig – Unrhyw gerdded yn y 7 diwrnod diwethaf - deuaidd
Dvwalkmv	Newidyn deilliedig – Cerdded sy'n cyfrif fel gweithgarwch cymedrol
Dvwalkmw	Newidyn deilliedig – Cyfanswm munudau o gerdded yr wythnos
Dvwlkmvmw	Newidyn deilliedig – Munudau o gerdded yr wythnos sy'n cyfrif fel gweithgarwch cymedrol
Dvwlkmvday	Newidyn deilliedig – Cerdded fel gweithgarwch cymedrol yn y 7 diwrnod diwethaf
Dvwalkday	Newidyn deilliedig – Cerdded yn y 7 diwrnod diwethaf – nifer y diwrnodau (graddfa)
Dvmodexweek	Newidyn deilliedig – Unrhyw weithgarwch cymedrol yn y 7 diwrnod diwethaf - deuaidd
Dvmodexday	Newidyn deilliedig – Gweithgarwch cymedrol yn y 7 diwrnod diwethaf – nifer y diwrnodau
Dvmodexmw	Newidyn deilliedig – Cyfanswm y munudau o weithgarwch cymedrol yr wythnos
Dvvigexweek	Newidyn deilliedig – Unrhyw weithgarwch egniïol yn y 7 diwrnod diwethaf - deuaidd

Dvvigmvmw	Newidyn deilliedig – Cyfanswm y munudau o weithgarwch egnïol yr wythnos *2 i roi munudau o ddwystr cymedrol
Dvvigexday	Newidyn deilliedig – Gweithgarwch egnïol yn y 7 diwrnod diwethaf – nifer y diwrnodau
Dvvigexmw	Newidyn deilliedig – Cyfanswm y munudau o weithgarwch egnïol yr wythnos
Dvmvpagrp2	Newidyn deilliedig – Munudau o MVPA yr wythnos - 3 grŵp
Dvmvpamw	Newidyn deilliedig - Munudau o MVPA yr wythnos
Dvmvpa150	Newidyn deilliedig - MVPA yn bodloni'r canllawiau o 150 munud yr wythnos
Dvmvinact	Newidyn deilliedig - MVPA anweithgar <30 munud yr wythnos
Dvmvdays	Newidyn deilliedig – Nifer y diwrnodau sydd o leiaf yn gymedrol egnïol yr wythnos
Dvmonx	Newidyn deilliedig – Gweithgarwch cymedrol neu egnïol ar ddydd Llun
Dvtuex	Newidyn deilliedig - Gweithgarwch cymedrol neu egnïol ar ddydd Mawrth
Dvwedx	Newidyn deilliedig - Gweithgarwch cymedrol neu egnïol ar ddydd Mercher
Dvthux	Newidyn deilliedig - Gweithgarwch cymedrol neu egnïol ar ddydd Iau
Dvfrix	Newidyn deilliedig - Gweithgarwch cymedrol neu egnïol ar ddydd Gwener
Dvsatx	Newidyn deilliedig - Gweithgarwch cymedrol neu egnïol ar ddydd Sadwrn
Dvsunx	Newidyn deilliedig - Gweithgarwch cymedrol neu egnïol ar ddydd Sul
DvFGHealth4	Newidyn deilliedig – Pobl â 4 neu 5 ymddygiad iach o ran ffordd o fyw (ddim yn ysmegu, pwysau iach, bwyta 5 ffrwyth neu lysieuyn, ddim yn yfed mwy na'r canllawiau, egnïol). (Dangosydd CD)
DvFGHealthyB	Newidyn deilliedig – Nifer yr ymddygiadau iach o ran ffordd o fyw (ddim yn ysmegu, pwysau iach, bwyta 5 ffrwyth neu lysieuyn, ddim yn yfed mwy na'r canllawiau, egnïol)
DvFGHealth1	Newidyn deilliedig - Pobl â llai na 2 ymddygiad iach o ran ffordd o fyw (ddim yn ysmegu, pwysau iach, bwyta 5 ffrwyth neu lysieuyn, ddim yn yfed mwy na'r canllawiau, egnïol).
DvFGHealth2	Newidyn deilliedig - Pobl â 2 neu fwy o ymddygiadau iach o ran ffordd o fyw (ddim yn ysmegu, pwysau iach, bwyta 5 ffrwyth neu lysieuyn, ddim yn yfed mwy na'r canllawiau, egnïol). (Dangosydd CD)
DvFGSport	Newidyn deilliedig – Cyfranogiad mewn gweithgareddau chwaraeon deirgwaith neu fwy yr wythnos (Dangosydd CD)
DvFrqPrtSport4	Newidyn deilliedig – Mynychder cyfranogiad mewn chwaraeon (cyfartaledd yr wythnos)
DvFrqPrtFitness4	Newidyn deilliedig - Mynychder cyfranogiad mewn unrhyw weithgarwch ffitrwydd (cyfartaledd yr wythnos)
DvFrqPrtSportGam4	Newidyn deilliedig - Mynychder cyfranogiad mewn unrhyw chwaraeon neu gêm (cyfartaledd yr wythnos)
DvFrqPrtOutPurs4	Newidyn deilliedig - Mynychder cyfranogiad mewn unrhyw weithgaredd awyr agored (cyfartaledd yr wythnos)
DvPrtAny	Newidyn deilliedig – Cyfranogi mewn unrhyw weithgarwch
DvPrtExclWik	Newidyn deilliedig - Cyfranogi mewn unrhyw weithgarwch heblaw cerdded
DvPrtAnyFitness	Newidyn deilliedig - Cyfranogi mewn unrhyw weithgarwch ffitrwydd
DvPrtAnySportGam	Newidyn deilliedig - Cyfranogi mewn unrhyw chwaraeon neu gêm

DvPrtAnyOutPurs	Newidyn deilliedig – Cyfranogi mewn unrhyw weithgaredd awyr agored
DvPrtGymTramp	Newidyn deilliedig – Cyfranogiad – Gymnasteg a/neu drampolinio
DvPrtBowls	Newidyn deilliedig - Cyfranogiad – Bowls dan do a/neu awyr agored
DvPrtSkiSnowbd	Newidyn deilliedig - Cyfranogiad – Sgïo a/neu eirafyrddio
DvPrtCanKayak	Newidyn deilliedig - Cyfranogiad – Canwïo a/neu gaiacio
DvPrtAthRunJog	Newidyn deilliedig - Cyfranogiad – Athletau a/neu redeg/loncian
DvLDAny	Newidyn deilliedig – Galw nas bodlonir am unrhyw weithgarwch
DvLDExclWik	Newidyn deilliedig - Galw nas bodlonir am unrhyw weithgarwch heb gynnwys cerdded
DvLDAnyFitness	Newidyn deilliedig - Galw nas bodlonir am unrhyw weithgarwch ffitrwydd
DvLDAnySportGam	Newidyn deilliedig - Galw nas bodlonir am unrhyw chwaraeon neu gêm
DvLDAnyOutPurs	Newidyn deilliedig - Galw nas bodlonir am unrhyw weithgaredd awyr agored
DvLDFitnessFit	Newidyn deilliedig - Galw nas bodlonir - Ffitrwydd – Dosbarthiadau ffitrwydd
DvLDFitnessGym	Newidyn deilliedig - Galw nas bodlonir - Ffitrwydd – Gweithgareddau campfa, Dosbarthiadau ffitrwydd, sesiynau ymarfer corff yn y cartref
DvLDFitnessDan	Newidyn deilliedig - Galw nas bodlonir - Ffitrwydd – Dosbarthiadau dawn
DvLDFitnessCyc	Newidyn deilliedig - Galw nas bodlonir - Ffitrwydd - Beicio
DvLDFitnessSwim	Newidyn deilliedig - Galw nas bodlonir - Ffitrwydd – Nofio neu blymio
DvLDFitnessWalk	Newidyn deilliedig - Galw nas bodlonir - Ffitrwydd – Cerdded dros 2 filltir
DvLDFitnessJogRun	Newidyn deilliedig - Galw nas bodlonir - Ffitrwydd – Loncian neu redeg
DvLDSportGamTeam	Newidyn deilliedig - Galw nas bodlonir – Chwaraeon a gemau – Chwaraeon tîm
DvLDSportGamRacket	Newidyn deilliedig - Galw nas bodlonir - Chwaraeon a gemau – Chwaraeon raced
DvLDSportGamIndoor	Newidyn deilliedig - Galw nas bodlonir - Chwaraeon a gemau - Indoor games
DvLDSportGamBowl	Newidyn deilliedig - Galw nas bodlonir - Chwaraeon a gemau – Bowlio neu fowls
DvLDSportGamMartial	Newidyn deilliedig - Galw nas bodlonir - Chwaraeon a gemau – Chwaraeon ymladd neu grefft ymladd
DvLDSportGamGolf	Newidyn deilliedig - Galw nas bodlonir - Chwaraeon a gemau - Golff
DvLDSportGamShtArch	Newidyn deilliedig - Galw nas bodlonir - Chwaraeon a gemau – Saethu neu saethyddiaeth
DvLDSportGamAthl	Newidyn deilliedig - Galw nas bodlonir - Chwaraeon a gemau - Athletau
DvLDSportGamMult	Newidyn deilliedig - Galw nas bodlonir - Chwaraeon a gemau – Chwaraeon amrywiol
DvLDOutPurMount	Newidyn deilliedig - Galw nas bodlonir – Gweithgareddau awyr agored – Chwaraeon mynydd
DvLDOutPurMotor	Newidyn deilliedig - Galw nas bodlonir - Gweithgareddau awyr agored – Chwaraeon modur
DvLDOutPurFishAng	Newidyn deilliedig - Galw nas bodlonir - Gweithgareddau awyr agored – Pysgota neu enweirio
DvLDOutPurHorse	Newidyn deilliedig - Galw nas bodlonir - Gweithgareddau awyr agored - Marchogaeth

DvLDOutPurWater	Newidyn deilliedig - Galw nas bodlonir - Gweithgareddau awyr agored – Chwaraeon dŵr
DvLDGymTramp	Newidyn deilliedig - Galw nas bodlonir - Gymnasteg a/neu drampolinio
DvLDBowls	Newidyn deilliedig - Galw nas bodlonir – Bowls dan do a/neu awyr agored
DvLDSkiSnowbd	Newidyn deilliedig - Galw nas bodlonir – Sgïo a/neu eirafyrddio
DvLDCanKayak	Newidyn deilliedig - Galw nas bodlonir – Canwïo a/neu gaiacio
DvLDATHRunJog	Newidyn deilliedig - Galw nas bodlonir – Athletau a/neu redeg/loncian
DvLDSkateSkatebd	Newidyn deilliedig - Cyfranogiad – Sglefrio a/neu sglefrfyrddio
DvHlthOverSatGrp	Gwasanaethau iechyd – Boddhad ar y cyfan gyda chyflwr gwasanaethau iechyd yng Nghymru (Wedi'i grwpio)
DvEdOverSatGrp	Addysg – Boddhad ar y cyfan gyda chyflwr addysg yng Nghymru (Wedi'i grwpio)
DvWgOverSatGrp	Llywodraeth Cymru – Boddhad ar y cyfan gyda'r ffordd y mae Llywodraeth Cymru'n gwneud ei gwaith (Wedi'i grwpio)
DvWEMWBS	Graddfa Lles Meddyliol Warwick-Caeredin – cyfanswm sgôr
DvWEMWBSGrp	Newidyn deilliedig – Graddfa Lles Meddyliol Warwick-Caeredin – Wedi'i grwpio
DvFGVol	Newidyn deilliedig – Pobl sy'n gwirfoddoli (yn ffurfiol neu'n anffurfiol)
DvEQMob	Newidyn deilliedig-Disgrifiad o'u hiechyd heddiw - symudedd
DvEQSelfC	Newidyn deilliedig- Disgrifiad o'u hiechyd heddiw - hunanofal
DvEQActiV	Newidyn deilliedig- Disgrifiad o'u hiechyd heddiw – gweithgareddau arferol
DvEQPain	Newidyn deilliedig- Disgrifiad o'u hiechyd heddiw - poen
DvEQAnx	Newidyn deilliedig - Disgrifiad o'u hiechyd heddiw - gorbryder
DvEQHealth	Newidyn deilliedig - Disgrifiad o'u hiechyd heddiw - iechyd
DvEQIndex	Newidyn deilliedig EQIndex

E. Pwysiadau a gynhyrchwyd ar gyfer set ddata derfynol 2024-25

Set ddata ymatebwyr:

Enw'r Newidyn Deilliedig	Label y Newidyn Deilliedig
WalesAdultWeight	Pwysiad i gynrychioli'r holl oedolion (16+) yng Nghymru
SampleAdultWeight	Pwysiad i gynrychioli'r holl oedolion (16+) yng Nghymru – mae'r sail bwysedig yn cyfateb â'r sail amhwysedig
WalesHhWeight	Pwysiad i gynrychioli'r holl aelwydydd yng Nghymru
SampleHhWeight	Pwysiad i wneud i'r sampl adlewyrchu nodweddion yr holl aelwydydd yng Nghymru

Ffeil ddata'r holl bobl:

Enw'r Newidyn Deilliedig	Label y Newidyn Deilliedig
WalesPopulationWeight	Pwysiad poblogaeth: Mae'n cynyddu'r sampl i gynrychioli poblogaeth yr unigolion (pob oed) yng Nghymru (oddeutu 3.1 miliwn)
SamplePopulationWeight	Pwysiad poblogaeth y sampl: Mae'n cynyddu'r sampl i gynrychioli poblogaeth yr unigolion (pob oed) yng Nghymru
WalesHhWeight	Pwysiad i gynrychioli'r holl aelwydydd yng Nghymru
SampleHhWeight	Pwysiad i wneud i'r sampl adlewyrchu nodweddion yr holl aelwydydd yng Nghymru

F. Newidynnau gweinyddol ar gyfer set ddata derfynol 2024-25

Ffeiliau data Ymatebwyr a'r Holl Bobl:

Enw'r Newidyn Gweinyddol	Label y Newidyn Gweinyddol
AddNo	Rhif adnabod yr ymatebydd
Year	Blwyddyn ddyroddi'r sampl
Month	Mis dyroddi'r sampl
F2F	Fflag i ddynodi a oedd y cyfeiriad yn gymwys i gael ymweliad wyneb-yn-wyneb
Mode_T	Dull ar gyfer yr adran dan arweiniad y cyfwelydd, naill ai CATI neu CAPI
Mode_O	Dull ar gyfer yr adran "ar-lein", naill ai CAWI neu CATI os rhoddodd y cyfwelydd gymorth
AdDepFlag	Fflag i ddynodi a gafodd yr ymatebydd eu cynnwys yn yr is-sampl Amddifadedd oedolion
PenDepFlag	Fflag i ddynodi a gafodd yr ymatebydd eu cynnwys yn yr is-sampl Amddifadedd pensïynwyr
AddNo	Rhif adnabod yr ymatebydd
Year	Blwyddyn ddyroddi'r sampl
Month	Mis dyroddi'r sampl
F2F	Fflag i ddynodi a oedd y cyfeiriad yn gymwys i gael ymweliad wyneb-yn-wyneb
Mode_T	Dull ar gyfer yr adran dan arweiniad y cyfwelydd, naill ai CATI neu CAPI
Mode_O	Dull ar gyfer yr adran "ar-lein", naill ai CAWI neu CATI os rhoddodd y cyfwelydd gymorth
AdDepFlag	Fflag i ddynodi a gafodd yr ymatebydd eu cynnwys yn yr is-sampl Amddifadedd oedolion
PenDepFlag	Fflag i ddynodi a gafodd yr ymatebydd eu cynnwys yn yr is-sampl Amddifadedd pensïynwyr

Ffeil ddata ailgysylltu:

Enw'r Newidyn Gweinyddol	Label y Newidyn Gweinyddol
AddNo	Rhif adnabod yr ymatebydd
Recontact	Fflag yn seiliedig ar gwestiynau Recontact2 a Recontact3 yn yr holiadur
Recontact2	Cwestiwn o'r holiadur
Recontact3	Cwestiwn o'r holiadur
FirstName	Enw cofnodedig yr ymatebydd o FullName
Surname	Enw cofnodedig yr ymatebydd o FullName
FullName	Enw cofnodedig yr ymatebydd o FullName
Address1	Cyfeiriad yr ymatebydd
Address2	Cyfeiriad yr ymatebydd
Address3	Cyfeiriad yr ymatebydd
Address4	Cyfeiriad yr ymatebydd
Address5	Cyfeiriad yr ymatebydd
Postcode	Cyfeiriad yr ymatebydd
PHSTD	Rhif ffôn yr ymatebydd
PHNUM	Rhif ffôn yr ymatebydd
EMAILV	E-bost yr ymatebydd

Ffeiliau data'r sampl:

Enw'r Newidyn Gweinyddol	Label y Newidyn Gweinyddol
AddNo	Rhif adnabod yr ymatebydd
Area	Dosbarthiad ardal y sampl
MainReserve	Fflag i ddynodi ai prif sampl ynteu sampl wrth gefn ydoedd
Fstname	Enw cofnodedig yr ymatebydd o FullName
Fullname	Enw cofnodedig yr ymatebydd o FullName
Addr1	Enw cofnodedig yr ymatebydd o FullName
Addr2	Cyfeiriad yr ymatebydd
Addr3	Cyfeiriad yr ymatebydd

Addr4	Cyfeiriad yr ymatebydd
Addr5	Cyfeiriad yr ymatebydd
Postcode	Cyfeiriad yr ymatebydd
Year	Blwyddyn ddyroddi'r sampl
Month	Mis dyroddi'r sampl
CatiContactDate1	Dyddiad cofnodedig yr ymgais i gysylltu dros y ffôn
...	Dyddiad cofnodedig yr ymgais i gysylltu dros y ffôn
CatiContactDate50	Dyddiad cofnodedig yr ymgais i gysylltu dros y ffôn
CatiContactTime1	Dyddiad cofnodedig yr ymgais i gysylltu dros y ffôn
...	Dyddiad cofnodedig yr ymgais i gysylltu dros y ffôn
CatiContactTime50	Dyddiad cofnodedig yr ymgais i gysylltu dros y ffôn
CapiContactDate1	Dyddiad cofnodedig yr ymgais i gysylltu dros y ffôn
...	Dyddiad cofnodedig yr ymgais i gysylltu dros y ffôn
CapiContactDate30	Dyddiad cofnodedig yr ymgais i gysylltu dros y ffôn
CapiContactTime1	Dyddiad cofnodedig yr ymgais i gysylltu dros y ffôn
...	Dyddiad cofnodedig yr ymgais i gysylltu dros y ffôn
CapiContactTime30	Dyddiad cofnodedig yr ymgais i gysylltu dros y ffôn
LangInt	Cwestiwn o'r holiadur
LangIntOT	Cwestiwn o'r holiadur
Intnum	Rhif cofnodedig y cyfwelydd (yn ffug-ddienw)
Hout	Deilliant terfynol cofnodedig
NumAdult	Yn seiliedig ar HouseCompAdul yn yr holiadur
F2F	Fflag i ddynodi a oedd y cyfeiriad yn gymwys i gael ymweliad wyneb-yn-wyneb
ProdCase	Fflag i ddynodi a oedd modd cyflawni cyfweliad yr ymatebydd (wedi'i gwblhau neu rannol defnyddiadwy)
NumObt	Fflag i ddynodi ffynhonnell y rhif ffôn a ddefnyddiwyd ar gyfer yr arolwg dros y ffôn
Count_CATI	Nifer cofnodedig yr ymgeisiau i wneud galwadau ffôn
Count_CAPI	Nifer cofnodedig yr ymgeisiau i gynnal ymweliadau wyneb-yn-wyneb

Sum_ContactMade_CATI	Nifer cofnodedig yr ymgeisiau i wneud galwadau ffôn a arweiniodd at gyswllt â'r ymatebydd
Sum_ContactMade_CAPI	Nifer cofnodedig yr ymgeisiau i gynnal ymweliadau wyneb-yn-wyneb a arweiniodd at gyswllt â'r ymatebydd

G. Codau deilliant

Ar ddiwedd y gwaith maes rhoddwyd deilliant terfynol i bob cyfeiriad. Yn aml roedd deilliannau terfynol yn cyfateb i ddeilliant y cyswllt terfynol, er enghraifft ar gyfer achos a gwblhawyd.

Fodd bynnag, nid felly yr oedd hi bob amser. Er enghraifft, os oedd y cyswllt cychwynnol yn cynnwys cwblhau cyfweliad rhannol, ond bod galwadau/ ymweliadau dilynol wedi esgor ar 'ddim ymateb' yn unig yna roedd y deilliant terfynol yn seiliedig ar y mwyaf llwyddiannus o'r cysylltiadau. Yn yr achos hwn, y cyfweliad rhannol gwreiddiol.

Cyfrifir y gyfradd ymateb fel: Cyfweliadau a gyflawnwyd / (Yr holl gyfeiriadau a ddyroddwyd – cyfeiriadau anghymwys). Mae hyn yn darparu ffracsiwn y cyfeiriadau cymwys lle cyflawnwyd cyfweliad yn llwyddiannus.

Mae **Tabl G1** yn crynhoi'r codau deilliannau gwahanol ar gyfer 'anghymwys' a 'diffyg cyswllt' yn ôl dull:

Statws	Cod deilliant	Dull
Anghymwys	- Ffacs - Amhosibl cael gafael arno - Wedi'i sgrinio - Rhif marw - Rhif wedi'i ddatgysylltu - Math anghywir o rif (busnes) - Nid oedd y rhif ffôn yn cyfateb i'r cyfeiriad	Ffôn
Anghymwys	- Cyfeiriad heb ei adeiladu eto/wrthi'n cael ei adeiladu - Adfeiliedig/wedi'i ddymchwel - Uned breswyl wag - Cyfeiriad dibreswyl - Sefydliad cymunol - Ddim y prif gyfeiriad - Anhygyrch - Cyfweydd yn methu â dod o hyd i'r cyfeiriad - Anhysbys a yw'r cyfeiriad yn un preswyl oherwydd diffyg cyswllt neu resymau eraill	Wyneb yn wyneb
Diffyg cyswllt	- Prysur - Dim ateb - Galwad gyffredinol yn ôl (heb ei threfnu gyda'r ymatebydd)	Ffôn
Diffyg cyswllt	- Dim cyswllt ag unrhyw un yn y cyfeiriad (heb ddethol unrhyw un) - Dim cyswllt â'r ymatebydd a ddetholwyd	Wyneb yn wyneb

	• Gofyn cael caniatâd rhiant – dim cyswllt â rhiant • Cyswllt wedi'i wneud ond nid â phreswlydd cyfrifol • Cyswllt yn y cyfeiriad ond dim cyswllt â'r ymatebydd a ddetholwyd • Dim cyswllt yn y cyfeiriad (ymatebydd wedi'u dethol neu heb eu dethol eto) • Dim ymateb	
--	--	--

Ystyriwyd fod gan ymatebydd statws 'deilliant arall' os oeddent yn rhan o'r sampl a ddyroddwyd ond bod ganddynt ddeilliant heblaw: Cyfweliadau, Anghymwys, Diffyg Cyswllt, Trosglwyddwyd o CAPI, Trosglwyddwyd i CAPI, Sampl Newydd.

Roedd hyn yn digwydd os oedd eu deilliant ffôn terfynol yn apwyntiad (cyffredinol, meddal, caled), peiriant ateb, ddim ar gael yn ystod gwaith maes, gohirio, neb 16+ oed ar y rhif, ymatebydd anhysbys.

H. Crynodeb o Waith Maes 2023

Crynodeb

Yn sgîl saib yn y gwaith maes prif gam ar gyfer yr Arolwg Cenedlaethol yn ystod 2023-24, cafodd Prawf Maes ar raddfa fawr ei amserlennu i ddechrau ar gyfer y cyfnod rhwng mis Hydref a mis Rhagfyr 2023. Fodd bynnag, am bod y gwaith sefydlu wedi cymryd yn sylweddol hwy na'r disgwyl, bu oedi gyda'r gwaith maes ac fe gafodd maint y sampl darged ei leihau o 2,000 o gyfweiliadau i 600 o gyfweiliadau ar sail 'ymdrechion gorau'. Fe barodd o 5 Rhagfyr 2023 tan 7 Ionawr 2024 i osgoi unrhyw orgyffwrdd posibl â chyfnod gwaith maes peilot 2024-25. Fel y digwyddodd hi, fe gyflawnwyd 219 o gyfweiliadau: 166 dros y ffôn a 53 wyneb yn wyneb.

Samplu

Crëodd Verian 419 o ardaloedd gwaith maes ar wahân a oedd, gyda'i gilydd, yn cwmpasu'r wlad i gyd, cyn dyrannu'r rhain yn systematig i bedwar chwarter y flwyddyn ac yna'n gyfartal i bob mis yn y chwarter.

Yn wreiddiol roedd dyroddiad sampl y Prawf Maes wedi'i amserlennu ar gyfer mis Hydref-Rhagfyr 2023 ac wedi'i fwriadu i gynnwys 104 o 419 o ardaloedd y gwaith maes: 35 yr un ym mis Hydref a mis Tachwedd, a 34 ym mis Rhagfyr. Fodd bynnag oherwydd yr oedi gyda'r gwaith maes fe gwtogwyd yn sylweddol ar y Prawf Maes: dyroddwyd pob un o'r 35 o ardaloedd gwaith maes ym mis Hydref ond dim ond tair o ardaloedd mis Tachwedd ac ni ddyroddwyd yr un o ardaloedd gwaith maes mis Rhagfyr. At ddibenion gwerthuso, dim ond dyroddiad mis Hydref oedd yn gallu cael ei ystyried: 2,728 o gyfeiriadau wedi'u gwasgaru rhwng 35 o ardaloedd gwaith maes: cyfartaledd o 78 o gyfeiriadau yr ardal.

Ym mhob ardal gwaith maes, cafodd cyfeiriadau a samplwyd eu dyrannu'n systematig i ddyluniad casglu data dau-gam (cyfweld dros y ffôn i ddechrau, ac yna cyfweld wyneb-yn-wyneb) gyda thebygolrwydd o 67%, neu i ddyluniad casglu data un-cam (cyfweld dros y ffôn yn unig) gyda thebygolrwydd o 33%. Ar y cyfan, dyrannwyd 1,827 o gyfeiriadau i'r dyluniad casglu data dau-gam tra bo'r 901 a oedd yn weddill wedi cael eu dyrannu i'r dyluniad casglu data un-cam. Fe aseiniwyd cyfwelwyr Verian i 26 o 35 o ardaloedd gwaith maes mis Hydref (2,049 o gyfeiriadau); fe aseiniwyd y naw a oedd yn weddill i gyfwelwyr Beaufort (679 o gyfeiriadau). Defnyddiwyd system o ddyrannu i asiantaethau ar sail tebygolrwydd i ddechrau, h.y. cafodd yr aseiniadau eu rhestru yn eu trefn didoli sampl cyn cael eu dyrannu'n systematig naill ai i Verian neu Beaufort. Er y cafwyd trafodaeth yn ddiweddarach am y potensial o ailddyrannu'r ddwy set o ardaloedd yn y gwaith maes, cytunodd y ddwy asiantaeth fod hyn yn ddiangen ar gyfer yr aseiniadau dan sylw gan mai'r naill asiantaeth a'r llall oedd yn y sefyllfa orau i gyflawni'r aseiniadau a ddyrannwyd iddynt.

Dethol

Anfonwyd llythyr rhag blaen at aelwydydd i ddechrau ac fe'u hanogwyd i ddarparu rhif ffôn a'u henw i alluogi cyfwelwyr i gysylltu â hwy ar gyfer cyfweiliad. Wedyn anfonwyd llythyrau atgoffa, lle nad oedd aelwydydd wedi darparu eu manylion cyswllt.

Ochr yn ochr â hyn, cafodd y sampl ei thele-baru i helpu i gynyddu maint y niferoedd a oedd ar gael i gyfwelwyr ar gyfer camau cychwynnol y gwaith maes. Ar y cyfan, cafodd ychydig dros chwarter y cyfeiriadau (26.8%; 730) eu tele-baru ag o leiaf un rhif ffôn.

Cafodd aelwydydd a ddyrannwyd i'r dyluniad casglu data dau-gam na wnaethant gwblhau cyfweiliad dros y ffôn ymweliad gan gyfwelydd gyda golwg ar gwblhau'r arolwg yn y cartref. Er y gallai unigolion gymryd rhan yn yr arolwg dros y ffôn neu yn y cnawd, roedd y broses ddethol yn gyson beth bynnag oedd y dull.

Roedd y broses dethol unigolion yn golygu casglu enwau'r holl aelodau o'r aelwyd a oedd yn 16+ oed yn ystod y cyswllt cychwynnol. Ar gyfer aelwydydd â dau oedolyn neu fwy, roedd y sgript yn dethol un unigolyn ar hap i gymryd rhan. Er bod hyn yn cael ei egluro yn y daflen a oedd yn cyd-fynd â'r llythyr rhag blaen, roedd y detholiad ar hap yn golygu, mewn nifer o achosion, nad y sawl a ddetholwyd oedd y sawl a ddarparodd eu manylion yn wreiddiol trwy'r porth ar-lein.

Amseriadau'r cyfweiliadau

Yn seiliedig ar rifynnau blaenorol o'r arolwg amcangyfrifwyd y byddai adran gyntaf yr arolwg yn cymryd oddeutu 30 munud i'w chwblhau dros y ffôn (CATI), gan ddisgwyl y byddai'r adran ar-lein ddilynol yn cymryd hyd at 15 munud. Roedd disgwyl i'r cyfweiliad yn y cartref gymryd 45 munud ar y cyfan, gyda 30 munud yn adran a weinyddir gan gyfwelydd ac oddeutu 15 munud wedi'u haseinio i adran hunan-gwblhau (CASI) yr arolwg.

Roedd yr adborth gan gyfwelwyr yn dynodi bod arolwg y Prawf Maes yn rhedeg am yn hwy na'r amcangyfrif gwreiddiol a hynny'n groes i'r disgwyl ac fe wnaeth y data cychwynnol ar amseriadau atgyfnerthu hyn. Fe gyflwynwyd is-samplu ychwanegol felly ar 18 Rhagfyr 2023 i leihau'r hyd ar gyfer gweddill y Prawf Maes. Fodd bynnag, roedd yr hyd canolrifol ar y cyfan yn dal i fod yn fwy na'r disgwyl ar draws y ddau ddull, yn enwedig dros y ffôn³⁰. Roedd hyd canolrifol cyfweiliadau dros y ffôn (CATI) yn 46 munud, o'i gymharu â 33 munud yn y cartref (CAPI; **Tabl H1**, isod), gyda CAWI/ CASI yn cofnodi hydoedd cyfweiliadau canolrifol cyson (16 munud). Er bod yr hyd ychydig yn hwy na'r disgwyl ar gyfer y cyfweiliad yn y cartref a'r cyfweiliadau CAWI a CASI, roedd y rhain i gyd o fewn y disgwyliadau ar gyfer y peilot (unwaith y cafodd yr elfen is-samplu ei hadolygu).

Tabl H1: Amseriadau'r cyfweiliadau

Amser mewn munudau			
	n a gwblhawyd yn llawn	Cymedr	Canolrif
CATI	163 ³¹	47	46

³⁰ Ceir rhagor o wybodaeth am y rhesymau posibl dros yr anghysondeb rhwng yr amseriadau dros y ffôn ac yn y cartref yn [adran 3.7](#) a [4.15](#).
³¹ Mae'r nifer a gwblhawyd yn is na'r ffigwr ar y cyfan gan bod allanolion eithafol wedi cael eu tynnu allan o'r cyfrifiadau

CAWI	161	17	16
CAPI	53	35	33
CASI	53	19	16

Is-samplu

Fe gymhwyswyd elfen is-samplu i nifer o fodiwlau, neu grwpiau o fodiwlau, yn yr holiadur. Proses awtomatig oedd hon a sefydlwyd yn y sgript ac a oedd yn pennu i bwy yr oedd modiwlau'n cael eu gofyn yn seiliedig ar reolau rhagddiffiniedig. Er enghraifft, cafodd fersiynau byr a hwy Graddfa Llesiant Meddyliol Warwick-Caeredin eu gofyn dim ond i hapddetholiad o 50% o ymatebwyr, felly gallai fersiwn fer neu fersiwn hir y cwestiynau gael ei gofyn i ymatebwyr.

Er bod y rhan fwyaf o is-samplu wedi cael ei sefydlu cyn dechrau'r gwaith maes, fel a nodir uchod, fe gyflwynwyd peth is-samplu ychwanegol yn ystod gwaith maes i wrthweithio pryderon ynghylch amseriadau annisgwyl o hir cyfweiliadau yn y dull CATI.

Gwaith maes

Cafodd sesiynau briffio cyfwelwyr eu rhannu ar draws nifer o ddiwrnodau, gyda phob cyfwelydd yn bresennol mewn sesiwn friffio gyflwyniadol ar MS Teams, a sesiwn friffio wyneb-yn-wyneb am ddiwrnod cyfan wedi hynny. Ar ôl hyn, gofynnwyd i gyfwelwyr gynnal nifer o gyfweiliadau ymarfer cyn bod yn bresennol mewn sesiwn derfynol (ar MS Teams) i ymdrin ag unrhyw ymholiadau a oedd ganddynt o hyd. Cafodd lleoliadau briffio ar gyfer y sesiynau wyneb-yn-wyneb eu dethol yn seiliedig ar yr aseiniadau a ddetholwyd a lleoliad cyfwelwyr, gyda thair sesiwn friffio'n digwydd yng Nghaerdydd ac un sesiwn friffio'n digwydd yn Wrecsam, i gyd yn ystod yr wythnos yn dechrau 29 Tachwedd 2023.

Dechreuodd gwaith maes ar 5 Rhagfyr 2023 ac fe barodd tan 7 Ionawr 2024 (gan gynnwys y dyddiad hwnnw). Fe ganolbwyntiodd yr ychydig wythnosau cyntaf yn bennaf ar y rhan ffôn (CATI), gyda chyfweiliadau yn y cartref yn dechrau yn ystod yr wythnos yn dechrau 18 Rhagfyr 2023.

Fe wnaeth y Prawf Maes hi'n bosibl i'r broses ar gyfer rheoli'r sampl fel y'i gweithiwyd ar draws CATI a CAPI gael ei hadolygu ac, os oedd angen, ei mireinio cyn peilot 2024-25; fel y digwyddodd hi, nid oedd angen unrhyw newidiadau. Darparwyd pecyn gwaith maes cyfwelydd ar gyfer cyfwelwyr a hwnnw'n cynnwys y sleidiau o'r sesiynau briffio, dogfen gyfarwyddyd ar gyfer cyfwelwyr, dogfen gyfarwyddyd ynghylch yr holiadur a mapiau gwaith maes. Ochr yn ochr â hyn rhoddwyd deunyddiau iddynt y gellid eu defnyddio ar garreg y drws neu yn ystod y cyfweiliad CAPI. Roedd y rhain yn cynnwys copi wedi'i lamineiddio o'r llythyr gwahodd, y daflen a'r llythyr atgoffa a anfonwyd at aelwydydd rhag blaen, a deunyddiau ychwanegol megis cardiau apwyntiadau a ffeithlun cysylltu data gyda thestun i gyd-fynd ag ef.

Gofynnwyd i gyfranogwyr a hoffent gwblhau'r arolwg yn Gymraeg ynteu yn Saesneg, ynteu mewn iaith arall, gyda'r holl gyfweiliadau Cymraeg yn cael eu cynnal gan gyfweilwyr Cymraeg Beaufort. Er bod yr arolwg wedi cael ei gynnig yn Gymraeg o'r dechrau un, dim ond dau gais a gafwyd am gyfweiliadau Cymraeg yn y Prawf Maes ac ni ofynnwyd am unrhyw gyfweiliadau mewn ieithoedd eraill.

Gofynnwyd i'r cyfweilwyr wirio hefyd a oedd ar y cyfranogwr angen help gan rywun arall (er enghraifft, aelod arall o'r aelwyd neu ffrind) i gwblhau'r cyfweiliad oherwydd, er enghraifft, anhawster gyda'u lleferydd neu eu clyw. Dynododd pedwar o'r 219 o gyfranogwyr y byddai angen help arnynt i gwblhau'r arolwg pan ofynnwyd y cwestiwn ynghylch cyfweiliad â chymorth, ac fe gawsant y cymorth hwnnw.

Dychmygwyd yn wreiddiol y byddai cyfweilwyr yn cael mynediad i ddechrau at y rhifau optio-i-mewn yn unig ar gyfer pythefnos cyntaf y gwaith maes, gyda'r rhifau tele-baru ar gael ar ddechrau wythnos 3. Fodd bynnag, gan bod yr oedi cyn gwneud y gwaith maes wedi arwain at gyfnod byrrach nag a fwriadwyd ar gyfer y gwaith maes (i lawr o 12 wythnos i 5 wythnos), fe benderfynwyd y byddai'r rhan tele-baru yn dechrau ar ddiwedd wythnos gyntaf y gwaith maes yn lle hynny i alluogi ffenestr fechan o waith maes tele-baru i ddechrau cyn i'r rhan yn y cartref ddechrau.

Lle nad oedd rhif optio-i-mewn wedi cael ei ddarparu (a bod y cyfeiriad heb gael ei dele-baru) fe roddwyd cynnig ar gysylltu ar garreg y drws i ddechrau, ar gyfer cyfeiriadau a ddyrannwyd i'r dyluniad dau-gam.

Ar ddiwedd y cyfweiliad dros y ffôn, gofynnwyd i unrhyw un a oedd wedi cadarnhau'n flaenorol eu bod yn defnyddio'r rhynggrwyd (IntPerUse) neu fod ganddynt ddyfais a oedd yn cysylltu â'r rhynggrwyd (IntPersUseCheck) gwblhau'r adran hunan-gwblhau ar-lein ar adeg a oedd yn gyfleus iddynt hwy. Lle nad oedd cyfranogwyr yn defnyddio'r rhynggrwyd, lle nad oedd ganddynt ddyfais a oedd wedi'i chysylltu â'r rhynggrwyd, neu lle nad oeddent yn gallu cwblhau'r adran hunan-gwblhau eu hunain, roedd cyfweilwyr yn gallu cwblhau'r adran ar-lein ar eu rhan, naill ai ar yr un alwad neu yn ddiweddarach.

Roedd yr holl gyfranogwyr yn gallu gwrthod yr adran ar-lein hefyd, er eu bod yn cael eu hatgoffa y byddai gwneud hynny'n golygu na fyddent yn gymwys i gael y daleb a oedd yn cael ei chynnig fel cymhelliad.

Roedd y gyfradd ymateb ar y cyfan ar gyfer y sampl yn 7.8%. Ceir crynodeb o'r deilliannau terfynol ar gyfer y sampl a ddyroddwyd isod yn **Nhabl H2**.

Tabl H2: Crynodeb o'r deilliannau terfynol

	n	% o'r cyfeiriadau a ddyroddwyd	% o'r cyfeiriadau a ddyroddwyd a oedd yn gymwys
Cyfanswm y cyfeiriadau a ddyroddwyd	2,950		
Ddim yn bodoli mwyach/eto	144	4.9%	
Cyfanswm y cyfeiriadau cymwys	2806	95.1%	100.0%
CYFANSWM Y CYFWELIADAU	230	7.8%	8.2%
Wedi'u cwblhau'n llawn (g.g. ail gam)	219	7.4%	7.8%
Wedi'u cwblhau'n rhannol*	11	0.4%	0.4%
Wedi'u cwblhau â CATI	166	5.6%	5.9%
Wedi'u cwblhau â CAPI	53	1.8%	1.9%
Diffyg cyswllt	477	16.2%	17.0%
Wedi gwrthod	307	10.4%	10.9%
Anghynhyrchiol	383	13.0%	13.6%
Heb eu cynnwys	1,409	47.8%	50.2%

* Mae Wedi'u cwblhau'n rhannol yn cynnwys 4 a gwblhaodd y cam cyntaf yn llawn (ond nid yr ail gam) a 7 a gwblhaodd ran yn unig o gam cyntaf y cyfweiliad.

Ceir crynodeb o'r sampl optio-i-mewn isod (**Tabl H3**), gyda thabl yn canolbwyntio ar y sampl tele-baru yn cael ei ddangos yn syth oddi tano (**Tabl H4**). Roedd y gyfradd ymateb ymhlith

cyfeiriadau optio-i-mewn yn 34% yn seiliedig ar yr holl gyfeiriadau cymwys (wedi'u cwblhau'n llawn) ond dim ond 3% ydoedd ar gyfer y sampl tele-baru.

Roedd y rhai wedi'u gwrthod yn 24% ar gyfer y sampl tele-baru (ymhlith cyfeiriadau cymwys), ond yn 12% ar gyfer y sampl optio-i-mewn. Er bod yr ail o'r rhain yn is o lawer, mae'n bwysig cofio eu bod wedi optio i mewn i ddechrau ond yn dal wedi gwrthod pan gysylltwyd â hwy. Fe ysgogwyd hyn yn bennaf gan y ffaith bod rhywun arall yn yr aelwyd wedi cael eu dethol i gymryd rhan (rhywun gwahanol i'r sawl a optiodd i mewn), ond roedd tystiolaeth anecdotaidd hefyd bod amseriad y gwaith maes – dros gyfnod y Nadolig – wedi cyfrannu at gyfradd wrthod uwch-na'r-disgwyl ar gyfer cyfeiriadau optio-i-mewn.

Tabl H3: Crynodeb o'r sampl optio-i-mewn

	n	% o'r cyfeiriadau optio-i-mewn	% o'r cyfeiriadau optio-i-mewn cymwys
Cyfanswm y cyfeiriadau optio-i-mewn	470		
Ddim yn bodoli mwyach/ eto	18	4	
Cyfanswm y niferoedd cymwys	452	96	100
Diffyg cyswllt	162	34	36
Diffyg cyswllt – ond wedi'u ffonio	135	29	30
Diffyg cyswllt – heb eu ffonio	27	6	6
Wedi gwrthod	54	12	12
Trosglwyddo i CAPI	1	0.2	0.2
Anghynhyrchiol	74	16	16

CYFANSWM Y CYFWELIADAU	161	34	36
Wedi'u cwblhau'n llawn (g.g. ail gam)	153	33	34
Wedi'u cwblhau'n rhannol*	8	2	2

* Mae Wedi'u cwblhau'n rhannol yn cynnwys 3 a gwblhaodd y cam cyntaf yn llawn (ond nid yr ail gam) a 5 a gwblhaodd ran yn unig o gam cyntaf y cyfweliad.

Tabl H4: Sampl tele-baru

	n	% o'r cyfeiriadau tele- baru	% o'r cyfeiriadau tele- baru cymwys
Cyfanswm y sampl tele- baru	662		
Ddim yn bodoli mwyach/ eto	99	15	
Cyfanswm y niferoedd cymwys	563	85	100
Diffyg cyswllt	379	57	67
Diffyg cyswllt – ond wedi'u ffonio	309	47	55
Diffyg cyswllt – heb eu ffonio	70	11	12
Wedi gwrthod	133	20	24
Trosglwyddo i CAPI	2	0.3	0.4
Anghynhyrchiol	34	5	6
CYFANSWM Y CYFWELIADAU	15	2	3
Wedi'u cwblhau'n llawn (g.g. ail gam)	13	2	3
Wedi'u cwblhau'n rhannol*	2	0.3	0.4

* Fe wnaeth y rhai a oedd Wedi'u cwblhau'n rhannol ill dau gwblhau'r cam cyntaf yn llawn (ond nid yr ail gam).

Ceir crynodeb o'r sampl wyneb-yn-wyneb isod (**Tabl H5**).

Mae'n bwysig nodi bod y sampl wyneb-yn-wyneb wedi'i bwriadu i gael ei gweithio dros gyfnod o 8-9 wythnos, ond oherwydd oedi cyn gwneud y gwaith maes, mai oddeutu 2 wythnos oedd y ffenestr derfynol gyda chryn dipyn o hyn dros gyfnod y Nadolig. O ganlyniad, ni chysylltwyd o gwbl â chyfran fawr o gyfeiriadau (70%) yn ystod ffenestr gyfyngedig y gwaith maes. Gyda hyn mewn cof ceir dwy fersiwn o'r tabl – y naill yn seiliedig ar yr holl aelwydydd (**Tabl H5**) a'r llall yn seiliedig ar yr aelwydydd yr aethpwyd mor bell â chysylltu â hwy fel rhan o ffenestr y gwaith maes wyneb-yn-wyneb (**Tabl H6**).

Roedd y gyfradd ymateb ymhlith yr holl aelwydydd wyneb-yn-wyneb yn 3% ond roedd yn codi i 10% pan mai dim ond aelwydydd y cysylltwyd â hwy o leiaf unwaith oedd yn cael eu cynnwys.

Tabl H5: Crynodeb o'r sampl wyneb-yn-wyneb (yr holl aelwydydd)

	n	% o'r cyfeiriadau wyneb-yn-wyneb	% o'r cyfeiriadau wyneb-yn-wyneb cymwys
Cyfanswm yr aelwydydd wyneb-yn-wyneb*	1,644		
Ddim yn bodoli mwyach/eto	39	2	
Cyfanswm y niferoedd cymwys	1,605	98	100
Diffyg cyswllt	1,150	70	72
Diffyg cyswllt – ond wedi cael ymweliad	88	5	5
Diffyg cyswllt – heb gael ymweliad	1,062	65	66
Wedi gwrthod	121	7	8
Anghynhyrchiol	281	17	18
CYFANSWM Y CYFWELIADAU	53	3	3

Tabl H6: Crynodeb o'r sampl wyneb-yn-wyneb (pawb y cysylltwyd â hwy)

	n	% o'r cyfeiriadau wyneb-yn-wyneb	% o'r cyfeiriadau wyneb-yn-wyneb cymwys
Cyfanswm yr aelwydydd wyneb-yn-wyneb *	582		
Ddim yn bodoli mwyach/eto	39	7	
Cyfanswm y niferoedd cymwys	543	93	100
Diffyg cyswllt – heb gael ymweliad	88	15	16
Wedi gwrthod	121	21	22
Anghynhyrchiol	281	48	52
CYFANSWM Y CYFWELIADAU	53	9	10

* Mae Aelwydydd Wyneb-yn-wyneb yn golygu aelwydydd a ddyrannwyd i'r dyluniad dau-gam, heb rif ffôn ar gael

Arolygon ar-lein a gyflawnwyd

Gofynnwyd i 173 o ymatebwyr dros y ffôn gyfranogi yn yr adran hunan-gwblhau³². O'r rhain, fe wnaeth 140 (81%) ei chwblhau eu hunain ar-lein cyn diwedd cyfnod y gwaith maes, ac fe wnaeth 24 arall (14%) ei chwblhau ar y ffôn gyda'r cyfwelydd yn ei gweinyddu (**Tabl H7**). Fe gytunodd pedwar ymatebydd i'w chwblhau ar-lein ond a hwythau heb wneud hynny erbyn y terfyn amser, ac fe ddechreuodd un ymatebydd ei chwblhau gyda'r cyfwelydd dros y ffôn ond ni wnaeth ei gorffen.

Fe wnaeth y pedwar ymatebydd a oedd yn weddill wrthod yr adran hunan-gwblhau yn gyfan gwbl.

Tabl H7: Crynodeb o'r sampl ar-lein

	n	% o'r rhai a oedd yn gymwys
Cyfanswm yn gymwys ar gyfer adran hunan-gwblhau	173	
Wedi derbyn yr adran hunan-gwblhau	144	83
Wedi'i chwblhau	140	81
Heb ei chwblhau	4	2
Wedi'i gweinyddu gan y cyfwelydd	25	14
Wedi'i chwblhau	24	14
Heb ei chwblhau	1	1
Wedi gwrthod	4	2
CYFANSWM Y CYFWELIADAU	164	95

³² Fe wnaeth 3 chyfranogwr roi'r gorau iddi cyn diwedd y CATI ac felly ni ofynnwyd iddynt gymryd rhan yn yr adran hunan-gwblhau

Arolygon CASI a gyflawnwyd

Ar y cyfan, fe gyfwelwyd â 53 o ymatebwyr yn y cartref gan ofyn iddynt gyfranogi yn yr adran hunan-gwblhau trwy CASI (**Tabl HG8**). O'r rhain, fe wnaeth 40 dderbyn yr adran hunan-gwblhau pan gyflwynwyd y llechen iddynt (75%) gyda phawb ohonynt yn ei chwblhau. Cafodd 13 arall eu gweinyddu gan y cyfwelydd (25%), gyda phawb o'r rhain eto'n cwblhau'r adran yn llawn, ac ni wnaeth unrhyw un wrthod yn gyfan gwbl.

Tabl H8: Crynodeb o'r sampl CASI

	n	% o'r rhai a oedd yn gymwys
Cyfanswm yn gymwys ar gyfer yr adran hunan-gwblhau	53	
Wedi derbyn yr adran hunan-gwblhau	40	75
Wedi'i chwblhau	40	75
Heb ei chwblhau	0	
Wedi'i gweinyddu gan y cyfwelydd	13	25
Wedi'i chwblhau	13	25
Heb ei chwblhau	0	0
Wedi gwrthod	0	0
CYFANSWM Y CYFWELIADAU	53	100